




Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin
Bevan (BIPAB)

Blaenau Gwent
(Dwyrain a Gorllewin)

Caerffili
(Dwyrain, Gogledd a De)

Monmouth
(Gogledd a De)

Dwyrain Casnewydd

Gorllewin Casnewydd

Torfaen
(Gogledd a De)

Cliciwch i ddychwelyd
i dudalen **CARTREF Y
BWRDD IECHYD**

Cliciwch ar GARTREF
BWRDD IECHYD i
ddychwelyd i'r
dudalen **ARDAL**

Elfennau rhyngweithiol
wedi'u hesbonio

↓
Cliciwch i'r
dudalen
FLAENOROL

↓
Cliciwch i'r
dudalen
NESAF



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Lloyd Hambridge
Cyfarwyddwr Rhanbarthol
Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau
Cymunedol, a Gofal Cymhleth a Hirdymor

Croeso i rifyn 2025 o adroddiad Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (RGCs) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sef ein terminoleg leol ar gyfer clystyrau. Ers y cyhoeddiad diwethaf yn 2019, rydym wedi parhau i esblygu ac addasu i ddiwallu'r newid cyson yn anghenion ein cymunedau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae ein Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn parhau i fod wrth wraidd ein strategaeth i ddarparu gofal integredig sy'n canolbwyntio ar y claf ac yn seiliedig ar leoedd ledled Gwent. Maent yn dwyn ynghyd ystod amrywiol o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol, gan gynnwys Meddygon Teulu, Deintyddion ac Ymarferwyr Optometrig, Fferyllwyr, Nyrsys Cymunedol, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol. Trwy gydweithio, mae'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynw mewn modd gwell a mwy effeithlon, a'i deilwra i anghenion unigryw pob cymuned.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi wynebu heriau digynsail, yn enwedig mewn cyswllt ag effaith y pandemig COVID-19 byd-eang ac anghydraddoldebau iechyd sy'n ehangu. Mae ein Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi bod yn allweddol yn ein hymateb, gan ddarparu cymorth a gwasanaethau hanfodol i'n poblogaeth. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu cyflawniadau a chynnydd ein Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, ac yn arddangos ymroddiad a gwaith caled ein timau.



Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu cysondeb y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth â'n cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol wrth i ni ymdrechu i wella canlyniadau iechyd a hybu llesiant unigolion a chymunedau ar hyd a lled Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r nodau hyn ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- **Darparu Gofal Seiliedig ar Leoedd:** datblygu dull gofal seiliedig ar leoedd, gan deilwra ein gwasanaethau i anghenion a nodweddion penodol ein cymunedau.
- **Gweithredu Iechyd a Gofal Seiliedig ar Werth:** blaenoriaethu'r canlyniadau sydd bwysicaf i gleifion ac ymdrechu i ddarparu gofal uchel ei safon sy'n darparu'r gwerth mwyaf, a hynny trwy wella canlyniadau iechyd a phrofiadau cleifion, a sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau ar yr un pryd.
- **Hybu Iechyd Ataliol:** canolbwyntio ar fesurau iechyd ataliol, gan gynnwys addysg iechyd, ymyriad cynnar, a mentrau cymunedol.
- **Cryfhau Prosesau Datblygu'r Gweithlu:** cefnogi datblygiad proffesiynol ein gweithlu, gan sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r adnoddau gofynnol i ddarparu gofal uchel ei safon.
- **Cynaliadwyedd a Chydnerthedd:** adeiladu system iechyd gynaliadwy a chadarn a all addasu i heriau'r dyfodol a pharhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel.
- **Croesawu Iechyd Digidol:** buddsoddi mewn technolegau iechyd digidol i wella mynediad at ofal, hyrwyddo ymgysylltiad cleifion, a symleiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- **Ehangu Gofal Integredig:** integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach, gan sicrhau gofal di-dor a chydgyssylltiedig i bob unigolyn, yn enwedig y rhai ag anghenion cymhleth.
- **Gwella Ymgysylltiad Cymunedol:** gweithio'n agos gyda'n cymunedau i ddeall eu hanghenion a'u dymuniadau, gan sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymatebol ac yn ddiwylliannol briodol.

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig Blaenau Gwent

Pwy ydym ni?

Mae Blaenau Gwent yn fwrdeistref sirol yn Ne-ddwyrain Cymru; mae'n ffinio â Sir Fynwy a Thorfaen i'r Dwyrain, Caerffili i'r Gorllewin a Phowys i'r Gogledd. Dyma'r fwrdeistref leiaf ledled Gwent; mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol sy'n 109 km² (42.08 milltir sgwâr), yn gwasanaethu poblogaeth fras o 71.852, ac yn cynnwys pedair prif dref, sef Glynebwy a Thredegar yn y gorllewin, a Bryn-mawr ac Abertyleri yn y Dwyrain.

Cadeiryddion BPGI: Esther Phillpott (BIPAB) & Alyson Hoskins (BGBC) Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'r Trydydd Sector.

Mae'r preswylwyr yn cael gofal y tu allan i'r ysbyty/iechyd cyffredinol a gofal cymdeithasol gan gcontractwyr annibynnol, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector. Mae'r fwrdeistref yn cynnwys dwy ardal Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, yn y dwyrain a'r gorllewin, a'u diben yw gweithio ar draws sectorau, gan gynnwys y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, i ddatblygu a chefnogi gwasanaethau cynaliadwy seiliedig ar ôl troed lleol. Ar draws Blaenau Gwent, mae ei chontractwyr annibynnol yn cynnwys 10 o bractisau meddygon teulu, 28 o fferyllfeydd cymunedol, 10 o bractisau deintyddol a 9 practis optometrig.

Mae gwasanaethau'r awdurdod lleol yn cynnwys:

Gwasanaethau Plant – Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, tri thîm seiliedig ar ardal, Tîm 14+, y Tîm Lleoliadau, Tîm Cefnogi Newid, Fy Nhîm Cymorth, Tîm Amser Teulu a Thîm Anabledd. Gwasanaethau Oedolion – Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

Gwasanaethau cymunedol

- 6 Llyfrgell
- 14 o Swyddfeydd y Post
- 22 o Ysgolion Cynradd a 2 Ysgol Uwchradd
- 10 o Warchodfeydd Natur Leol
- 1 Llwybr Beicio Cenedlaethol
- 17 o Fannau Chwarae i Blant
- 1 Ganolfan Chwaraeon
- 14 o Gyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae Cymru iachach yn gosod targed o system iechyd a gofal cymdeithasol gwbl integredig, ac iddi ffocws allweddol ar ddull hunanofal sy'n seiliedig ar gryfderau, a'r gofal yn cael ei symud o'r ysbyty i'r gymuned. Rôl Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Blaenau Gwent yw gweithredu fel galluogwr ar gyfer gwreiddio dull system gyfan sy'n integreiddio gwasanaethau iechyd, a gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol, ac sy'n cael ei hwyluso gan gydweithrediad a phrosesau ymgynghori.

Mae yna fwrriad sylfaenol yn y Bwrdd Partneriaeth i wella'r gwasanaethau a'r gofal y mae preswylwyr yn eu cael, a hynny trwy i'r gwaith gael ei wneud mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Cefnogir hyn gan Fframwaith Gweithredu rhanbarthol Marmot, gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a'r model Trawsnewid Gofal Sylfaenol, a hynny trwy i waith seiliedig ar leoedd gael ei ddatblygu ar draws sefydliadau a strwythurau i alluogi ein hased mwyaf, sef ein gweithlu, i ganolbwyntio ar rymuso cymunedau i fod yn gydnerth a pherchnogi eu llesiant iechyd, gan dynnu'r pwysau oddi ar ein systemau o ganlyniad i ailgynllunio gwasanaethau. Gydol y 12-18 mis nesaf, bydd y ffocws yn benodol ar bobl hŷn, cefnogi ymyriad cynnar/prosesau atal cynnar, a gofal iechyd darbodus, a hynny er mwyn helpu i gryfhau ymateb y gymuned i'r gwasanaethau integredig a ddarperir.

Gydol y 12-18 mis nesaf, bydd y ffocws yn benodol ar bobl hŷn, cefnogi ymyriad cynnar/prosesau atal cynnar, a gofal iechyd darbodus, a hynny er mwyn helpu i gryfhau ymateb y gymuned i'r gwasanaethau integredig a ddarperir.

ASTUDIAETH ACHOS

Rhaglen brechu rhag y fflw i blant 2-3 oed – trwy gyfrwng ein grŵp gorchwyl a gorffen Gwella Canlyniadau Trwy Ymyriad Cynharach, bu modd i ni ehangu ein rhaglen fflw ar gyfer plant 2-3 oed ar draws ein holl leoliadau cyn ysgol a meithrin.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Adferwyd Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Blaenau Gwent a chaiff ei gynrychioli'n dda.
- Rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu ein gweledigaeth ar y cyd o greu Blaenau Gwent fwy llewyrchus, a hynny trwy ein strategaeth gofal seiliedig ar leoedd, "Blaenau Gwent Hapus, Iach".
- Rydym wedi datblygu Cynllun Integredig Blaenau Gwent, cynllun sydd wedi'i gysoni ac sy'n adeiladu ar gynlluniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chlwtwr Dwyrain a Gorllewin Blaenau Gwent, a chynlluniau a blaenoriaethau Corfforaethol/Busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, gan gefnogi cysondeb ledled y sefydliadau.
- Mae datblygu grwpiau gorchwyl a gorffen i gefnogi blaenoriaethau allweddol unigol, er enghraifft Gwella Canlyniadau Trwy Ymyriad Cynharach (Deintyddol ac Imiwneiddio) wedi bod yn allweddol o ran cefnogi rhaglen fflw i blant 2-3 oed ym Mlaenau Gwent.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

- Trwy ein Bwrdd Partneriaeth rydym wedi gallu darparu arweinyddiaeth systemau i alluogi cydweithrediad rhwng sefydliadau partner ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i nodi a diwallu anghenion y boblogaeth leol.
- Trwy ein gwaith rhianta rydym wedi gallu gwir ddeall anghenion y boblogaeth a chysoni ein blaenoriaethau allweddol ledled sefydliadau iechyd a chymdeithasol, a sefydliadau'r trydydd sector.
- Datblygu dull cydgysylltiedig seiliedig ar leoedd ar gyfer rheoli ystadau, dull sy'n cyd-fynd â modelau gwasanaethau lleol.
- Gwell cynnydd o ran y grwpiau gorchwyl a gorffen y cytunwyd arnynt pan osodwyd y blaenoriaethau. Nid yw pob un wedi'i sefydlu, e.e. ystadau a mapio .

Beth nesaf?

Parhau i weithio gyda phartneriaid i weithredu ein gweledigaeth ar gyfer "Blaenau Gwent Hapus, Iach", fel yr amlinellwyd uchod.

Gan gynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

Bydd Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Blaenau Gwent yn canolbwyntio ar flaenoriaethau newydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac ar y r un pryd yn sicrhau cysondeb â Chynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a chynlluniau blynyddol y Clystyrau ar gyfer dull system gyfan.

Bydd y fframwaith yn nodi camau gweithredu dan ddau nod polisi: creu cymdeithas alluogol sy'n hyrwyddo potensial yr unigolyn a'r gymuned; a sicrhau bod cyfiawnder cymdeithasol, iechyd a chynaliadwyedd wrth wraidd pob polisi. Yn ganolog i'r adolygiad mae'r gydnabyddiaeth bod anfantais yn dechrau cyn geni ac yn cronni gydol oes.

Adlewyrchir hyn yn yr wyth amcan polisi isod:

1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.
2. Galluogi pob plentyn, unigolyn ifanc ac oedolyn i wneud y gorau o'i alluoedd a bod â rheolaeth dros ei fywyd.
3. Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb.
4. Sicrhau safon byw iach i bawb.
5. Creu a datblygu lleoedd a chymunedau cynaliadwy.
6. Cryfhau rôl ac effaith prosesau atal afiechyd.
7. Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu, a'u canlyniadau.
8. Mynd ar drywydd cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd ar y cyd.

RGC Blaenau Gwent

(Dwyrain a Gorllewin)

Pwy ydym ni?

Bwrdeistref Blaenau Gwent yw'r Awdurdod Lleol lleiaf yng Ngwent; mae iddo arwynebedd daearyddol o 109 km² (42.08 milltir sgwâr), ac mae'n gwasanaethu poblogaeth o tua 71,852 sy'n cwmpasu pedair prif dref, sef Glyn Ebwy, Tredegar, Bryn-mawr ac Abertyleri.

Esther Phillpott – Pennaeth y Gwasanaeth
Aimee Clement-Rees – Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaeth
Claire Evans – Rheolwr y Rhwydwaith a'r Gwasanaethau Cymunedol
Victoria Price – Rheolwr y Rhwydwaith a'r Gwasanaethau Cymunedol
Joanne Bradley – Swyddog Cynnal y Rhwydwaith

Ledled Blaenau Gwent, mae'r contractwyr annibynnol yn cynnwys:

- 10 o bractisau meddygon teulu, gyda thri ohonynt yn cael eu rheoli gan y Bwrdd Iechyd o 1 Mawrth 2025
- 10 o bractisau deintyddol
- 24 o fferyllfeydd cymunedol
- 9 practis optometreg

Gwasanaethau Cymunedol

- 6 llyfrgell
- 14 o Swyddfeydd Post
- 22 o ysgolion cynradd a 2 ysgol uwchradd
- 10 o warchodfeydd natur lleol
- 1 Llwybr Beicio Cenedlaethol
- 17 o ardaloedd chwarae i blant
- 1 canolfan chwaraeon
- 14 o gyfleusterau chwaraeon awyr agored

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Bydd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a bennwyd gennym yn parhau'r un fath, gydag elfen allweddol ychwanegol o gyflawni ein strategaeth seiliedig ar le sy'n cyfateb i'r meysydd ffocws allweddol ar gyfer Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Yn rhan o'n cynllun blynyddol ar gyfer 2024-25 a 2025-26, ein bwriad yw cysoni ein blaenoriaethau strategol ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig BIPAB:

1. Pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
2. Cael pethau'n iawn ar gyfer plant a phobl ifanc.
3. Oedolion yng Ngwent yn byw'n iach ac yn heneiddio'n dda.
4. Oedolion hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n dda ac yn annibynnol.
5. Marw'n dda yn rhan o fywyd.

ASTUDIAETH ACHOS

Yn 2024 buddsoddodd clwstwr Dwyrain a Gorllewin Blaenau Gwent mewn Prosiect Uwch-ymarferwyr Parafeddygol – Osgoi Derbyniadau i'r Ysbyty.

Roedd y prosiect yn cynnwys naw Uwch-ymarferydd Parafeddygol sy'n cylchdroi i mewn ac allan o Ardal Blaenau Gwent gan ddarparu cymorth i bob un o'r 10 o bractisau ledled y fwrdeistref ar gyfer gwasanaeth ymweliadau cartref sy'n cynnwys achosion aciwt.

Bydd yr Uwch-ymarferydd Parafeddygol yn gweithio ledled Blaenau Gwent yn cynnig gwasanaeth yn y gymuned i helpu gydag ymweliadau â chartrefi'r cleifion hynny y gallai fod angen iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty neu y gallent fod yn addas ar gyfer mewnbwn gan y Tîm Adnoddau Cymunedol/Ymateb Cyflym. Trwy ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, galluogir asesiadau cynharach ac atgyfeiriadau at y Tîm Adnoddau Cymunedol/ Ymateb Cyflym.

Er ein bod yng nghamau cynnar y prosiect o hyd, mae'r adborth wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol.

Adborth gan y gwasanaethau meddygol cyffredinol

Ionawr 2025

'Mae pob Uwch-ymarferydd Parafeddygol yr ydw i wedi ymwneud ag ef hyd yma yn ymddangos yn gymwys, yn gymwynasgar, yn gyfeillgar ac yn agos-atoch'

Chwefror 2025

'DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI... Mae pob aelod o'r tîm wedi bod yn broffesiynol iawn ac ar y cyfan wedi ffitio'n dda i mewn i'n tîm ni. Rhagorol, mae eu dull o gymryd nodiadau yn gynhwysfawr ac rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth'

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Rhai o gyflawniadau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ym Mlaenau Gwent ar gyfer 2024-25:

- Cafodd ymgyrch brechu rhag y ffliw 2024-25 ar gyfer plant dwy a tair oed ei hestyn i bob darparwr gofal plant a lleoliad addysg ledled Blaenau Gwent. Bu'r Rhwydwaith yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaeth Imiwneiddio BIPAB i ddarparu'r rhaglen ledled cyfanswm o 45 o leoliadau yn ystod mis Medi.
- Mae'r Rhwydwaith wedi gweithredu a chyflawni'r Gwasanaeth Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf yn llwyddiannus ledled Clwstwr Gorllewin blaenau Gwent. Nod y gwasanaeth yw rhoi'r budd gorau posibl i gleifion â chyflyrau cyhyrsgerberbydol.
- Mae'r Rhwydwaith wedi rhoi'r Prosiect Uwch-ymarferwyr Meddygol – Osgoi Derbyniadau i'r Ysbyty ar waith ledled y ddau glwstwr. Mae Uwch-ymarferwyr Parafeddygol yn glinigwyr arbenigol ac annibynnol sy'n darparu sgiliau clinigol uwch o ran asesu, gwneud diagnosis, trin ac atgyfeirio cleifion, gan ddefnyddio model gofal meddygol/rheoli. Nod y fenter yw caniatáu asesiad cynnar a chludo'r claf i'r ysbyty mewn modd priodol, yn ôl y gofyn, ond gan optimeiddio'r defnydd o wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol eraill i liniaru'r pwysau ar y systemau gofal ehangach. Mae'r Uwch-ymarferwyr Parafeddygol yn ymweld â chartrefi (gan gynnwys cartrefi gofal) ac yn gweithio ar y cyd â meddygon teulu, y Tîm Adnoddau Cymunedol – Ymateb

Cyflym, a thimau Nyrsys Ardal i ddarparu gofal. Mae gan Uwch-ymarferwyr Parafeddygol fwy o fynediad at y llyfr fformiwla'u meddyginiaethau, gyda chymorth Cyfarwyddyd Grwpiau Cleifion, i drin ystod o ymgyflwyniadau aciwt.

- Cyflwynwyd gwasanaeth newydd yng Ngorllewin Blaenau Gwent i ddarparu gwasanaeth fferyllfa i gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi. Mae Fferyllfydd y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth wedi bod yn cynnal adolygiadau yn y cartref. Y nod, trwy dargedu'r grŵp hwn o gleifion sy'n aml yn cael gofal adweithiol yn unig, yw y byddwn yn gallu adnabod y rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf, gan awgrymu newidiadau priodol i'w meddyginiaethau i'r practisau, a lleihau gwastraff a niwed/risgiau o ganlyniad i feddyginiaethau.
- Rydym wedi parhau i gefnogi anghenion y boblogaeth leol mewn perthynas â'r argyfwng costau byw. Darparodd y Rhwydwaith gyllid i gefnogi Rhaglen Hamdden Fit and Fed Aneurin Bevan, sef rhaglen sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgarwch corfforol, sesiynau cyfoethogi, a phrydau iach i blant yn ystod gwyliau haf yr ysgol.
- Mae'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Llesiant Integredig, wedi lansio map ar-lein a fydd yn cysylltu pobl Blaenau Gwent â phopeth sydd yn yr ardal leol i gefnogi llesiant corfforol a meddyliol. Gall cymunedau ddefnyddio'r map i ddod o hyd i grwpiau, gwasanaethau a sefydliadau yn yr ardal leol.



RGC Blaenau Gwent
(Dwyrain a Gorllewin)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Dwyrain Blaenau Gwent
Dr. Isolde Shore-Nye Isalde.
Shore-Nye2@wales.nhs.uk

Gorllewin Blaenau Gwent
Dr. Simon Donovan
Simon.Donovan2@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RGC Blaenau Gwent (Dwyrain a Gorllewin)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Dwyrain Blaenau Gwent
Dr. Isolde Shore-Nye Isolde.
Shore-Nye2@wales.nhs.uk

Gorllewin Blaenau Gwent
Dr. Simon Donovan Simon.
Donovan2@wales.nhs.uk

- Mae Tîm Ardal Blaenau Gwent ac Arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi rhoi eu cefnogaeth lawn i agoriad Canolfan Iechyd a Llesiant Bevan yn Nhredegar.
- Yn rhan o sesiynau Amser Dysgu Gwarchodedig y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, cynhaliwyd digwyddiad cynllunio ar gyfer y gaeaf, a gafodd ei drefnu a'i gyflwyno gan Dîm Lleol Blaenau Gwent. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar gynorthwyo ein cwmnïau cydweithredol gyda'r pwysau sylweddol y gwyddom eu bod yn ei wynebu yn ystod cyfnod y gaeaf, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith gwasanaethau ledled y sectorau iechyd a chymdeithasol a'r trydydd sector a all gynorthwyo gyda chynaliadwyedd, osgoi derbyniadau i'r ysbyty a/neu ryddhau cleifion yn gynnar o'r ysbyty.
- Cynhaliwyd sioe deithiol o ddigwyddiadau llesiant i staff. Fe'u cynlluniwyd ar y cyd â'r Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Roedd y digwyddiadau'n cynnig croeso cynnes a phersonol, ardal i ymlacio ynddi, byrddau creadigol, therapi cŵn, gwybodaeth am lesiant, a gwobrau raffl a roddwyd gan fusnesau lleol. Cafodd cyfanswm o 173 o aelodau staff yn yr ardal fudd o'r stondinau llesiant dros dro.
- Darperir calendr o ddigwyddiadau llesiant Cymunedol yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth. Cynhaliwyd pedwar digwyddiad yn y flwyddyn ariannol hon hyd yma. Ymhlith y pynciau yr oedd iechyd meddwl, y dechrau gorau mewn bywyd, ac imiwneiddiadau yn ystod plentyndod.
- Cysylltodd Cyngor Tref Tredegar â Thîm y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i gynnal gweithdai iechyd a llesiant yn rhan o ddiwrnod Trochi Ysgolion Cyfun Tredegar. Cynhaliodd Tîm Ardal Blaenau Gwent bum gweithdy i dros 100 o ddisgyblion, a oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc yn perchnogi ar eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.
- Treialwyd y system Cívica ar gyfer amserlennu galwadau yn y Tîm Adnoddau Cymunedol. Mae'r system wedi disodli dyddiadur papur ac wedi gwella diogelwch staff trwy ddefnyddio'r swyddogaeth cofnodi ac allgofnodi ar gyfer ymweliadau â chartrefi.
- Cyflwynwyd Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan yn llwyddiannus ledled y ddau glwstwr, system sy'n sicrhau bod cleifion yn y cam cyn-ddiabetig yn cael cynnig ymyriad byr sy'n cynnwys cyngor ar ffordd o fyw, a hynny gyda'r gobaith o ostwng eu HBA1c dros y tymor hwy er mwyn lleihau neu atal cynnydd diabetes.
- Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Plant a Phobl Ifanc ei sefydlu'n llawn i wella canlyniadau trwy ymyriad cynnar, gan ffocysu'n bennaf ar y gwasanaeth deintyddol ac imiwneiddio.
- Cymerodd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Gorllewin Blaenau Gwent ran yn yr Adolygiad gan Gymheiriaid yr SPPC gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf.
- Er mwyn cyflawni'r weledigaeth o greu Gwasanaeth Blaenau Gwent Hapus Iach, nid yn unig yr ydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu model gofal a fydd yn iawn ar gyfer pobl Blaenau Gwent, ond mae llwyddiant y rhaglen hefyd yn dibynnu ar ymgysylltiad pob un o'r partneriaid. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig wedi rhoi cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn i'r model arfaethedig hwn, gan gydnabod bod yna benderfyniad i gyflawni Cymru Iachach.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae yna fwllch sylweddol o ran disgwyliad oes iach ym Mlaenau Gwent rhwng y bobl gyfoethocaf a'r bobl dlotaf yn ein cymunedau, sy'n golygu ein bod yn gweld nifer mawr o gleifion ag anghenion iechyd amryfal yn cyrchu ein gwasanaethu.

Rydym ni, y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, yn gwbl ymrwymedig i helpu i gyflawni gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau trwy adeiladu cymunedau cydnerth ac ymgorffori dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu gwasanaethau a chefnogi dinasyddion a'u teuluoedd i berchnogi ar eu hanghenion iechyd a llesiant trwy atal, hunanofal ac ymyriad cynnar i gyflawni'r newid y mae ar gymunedau ei angen.

Mae ein cyflawniadau allweddol yn dangos ein bod ni, y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, yn ceisio diwallu anghenion y boblogaeth a wasanaethwn; trwy ein penderfyniad i weithio mewn partneriaeth rydym wedi gallu defnyddio dull arweinyddiaeth wasgaredig gan sicrhau bod pob partner yn cymryd rhan lawn yn ystod y broses o ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf ar gyfer poblogaeth Blaenau Gwent.

Myfyrdodau/ Heriau Allweddol yn 2024-25	
Cyllid	Mae effaith cyllidebau llai a dyfarniadau cyflog wedi achosi amrywiadau y tu hwnt i'n rheolaeth gan ei gwneud yn anodd ymrwymo i gynlluniau hirdymor neu brofi mentrau newydd.
Cadw, recriwtio a chydnerthedd y gweithlu	Diffyg staff i gefnogi'r broses o gyflawni ein blaenoriaethau. Ansicrwydd ynghylch gallu'r gweithlu, amrywiadau yn y lefelau staffio, ac anallu i recriwtio a chadw staff clinigol, gan gael effaith sylweddol ar ein gallu i flaengynllunio gweithgareddau.
Lefelau amddifadedd cynyddol	Nodweddir ein poblogaeth gan bocedi mawr o anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig ag amddifadedd economaidd gymdeithasol, a'r argyfwng ariannol presennol sy'n effeithio ymhellach ar y meysydd hyn. Mae'r galw am ofal iechyd a chymdeithasol yn cynyddu ac yn parhau i dyfu. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn byw'n hirach ac mae ganddi anghenion mwy cymhleth, gan gynyddu'r pwysau ar sector gofal cymdeithasol ac iechyd a thrydydd sector sydd eisoes dan bwysau.
Pwysau costau byw	Effaith barhaus ar iechyd meddwl a llesiant pobl yn arwain at alw cynyddol am gymorth yn lleol.
Ystadau	Er y nodir bod ystadau ledled rhai ardaloedd lleol yn gwella, mae yna nifer sylweddol o hyd nad ydynt yn addas i'r diben ar gyfer darparu gofal seiliedig ar le. Mae diffyg capasiti ac adeiladau sy'n addas i'r diben yn golygu na allwn gefnogi cyfleoedd i leihau'r galw ar y gwasanaethau.
Biwrocratiaeth	Mae prosesau corfforaethol sy'n cymryd cryn amser yn llesteirio ein gallu i gyflawni blaenoriaethau allweddol mewn modd amserol.

Beth nesaf?

Ar gyfer 2025-26 byddwn yn anelu at gyd-fynd â'r prif feysydd ffocws a nodir ar gyfer Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth trwy ddatblygu model gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, a hynny trwy ddealltwriaeth ddyfnach o'r asedau cymunedol a'r anghenion lleol yn y boblogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei ddarparu trwy ein strategaeth gofal seiliedig ar le, "Blaenau Gwent Hapus, Iach".



Blaenau Gwent Hapus, Iach yw ein prosiect a lywir yn lleol; ein gweledigaeth yw i Flaenau Gwent fod yn ardal ystyriol a gofalgwr, sy'n gweithio trwy ddull cydweithredol i gefnogi iechyd a llesiant pobl. Ein nod yw adeiladu cymunedau mwy cydnerth fel y gall ein dinasyddion gael eu grymuso i gyrchu asedau cymunedol yn uniongyrchol ledled Blaenau Gwent i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant.

Mae fframwaith Blaenau Gwent Hapus, Iach yn cyd-fynd â Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol. Bydd yr amcanion craidd yn y fframwaith hwn yn cael eu dehongli ar lefel leol ym Mlaenau Gwent i ddarparu'r grym ysgogol ar gyfer y rhaglen.

Rydym am wneud y canlynol:

- Grymuso pobl sy'n gofalu amdanynt eu hunain ac am ei gilydd
- Adeiladu cymunedau cryfach a mwy cydnerth gyda'n gilydd
- Gweithio ar y cyd â'n holl bartneriaid i ddatblygu gwasanaethau teg ac o ansawdd uchel ar gyfer 'nawr a'r dyfodol.

Dilysir y weledigaeth hon gan y cyfeiriad strategol a nodir yn y Rhaglen Gofal Sylfaenol Genedlaethol, Cymru Iachach a Ffyniant i Bawb, sy'n nodi uchelgeisiau strategol ar gyfer cynyddu cynaliadwyedd y gweithlu a defnyddio'r trydydd sector i fodloni'r galw cynyddol am ein gwasanaethau craidd. Mae cyllid trawsnewidiol wedi darparu'r cyfle i symud y weledigaeth hon yn ei blaen trwy ymgorffori model gofal Blaenau Gwent Hapus, Iach i gefnogi ein strategaeth seiliedig ar le.

Trwy ymgorffori egwyddorion tîm amlddisgyblaethol, gallwn ddarparu gofal priodol i bobl â chyflyrau hirdymor a chefnogi'r broses o reoli'r galw am ein gwasanaethau ar y cyd ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd. Bydd ein partneriaid yn y Rhwydwaith Llesiant Integredig yn allweddol wrth ddarparu'r model gofal hwn i sicrhau bod Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn deall yr asedau cymunedol, megis grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu pobl i gynnal neu ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymdeithasol a gwella canlyniadau ar gyfer ein preswylwyr.

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig Caerffili

Pwy ydym ni?

Mae Bwrdeistref Caerffili wrth galon Cymoedd De Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr sy'n 278 km² (107 milltir sgwâr). Mae ychydig dros 18.6 milltir o hyd a bron yn 11 milltir o led, ac mae ei ffin yn mynd o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd, i Gaerdydd a Chasnewydd yn y de. Mae'n ffinio â Merthyr Tudful yn y gogledd, Rhondda Cynon Taf yn y gorllewin, ac awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Thorfaen yn y dwyrain. Yn ffinio â'i bwrdd iechyd y mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae ganddi boblogaeth breswyl o tua 181,731 (Ystadegau Canol Blwyddyn 2020 Stats Cymru).

Mae'r boblogaeth sy'n gofrestredig mewn practisau meddygon teulu yn y fwrdeistref yn 187,000, sy'n uwch na nifer y preswylwyr. Mae'r unigolion hyn yn cael gofal iechyd a chymdeithasol y tu allan i'r ysbyty/gofal iechyd a chymdeithasol cyffredinol, a hynny gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, contractwyr annibynnol, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector.

Cadeiryddion BPGI: Eira Turner (BIPAB) & Jo Williams (CCBC)
Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, GAVO, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ledled Caerffili ceir contractwyr annibynnol allweddol sy'n rhan annatod o'n system iechyd a gofal cymdeithasol, fel a ganlyn: 20 o bractisau meddygon teulu, 43 o fferyllfeydd cymunedol, 25 o bractisau deintyddol ac 17 o bractisau optometrig. Mae 25 o gartrefi preswyl/nyrsio yn y fwrdeistref, 93 o ysgolion (cynradd ac uwchradd), 39 o ganolfannau cymunedol a 18 o lyfrgelloedd. Mae cipolwg yn amlygu bod gan Gaerffili ar hyn o bryd 14 o ddarparwyr gofal cartref yn y fwrdeistref.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig Caerffili ar yr egwyddorion marmot fel fframwaith i sicrhau ein bod yn gweithio i'r cyfeiriad cywir i ddiwallu anghenion ein poblogaeth, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar draws y fwrdeistref. Ein blaenoriaethau yw:

- Y blynyddoedd cynnar a'r dechrau gorau mewn bywyd
- Iechyd Meddwl a Llesiant
- Cydnerthedd Cymunedol (gan gynnwys ffrydiau gwaith ataliol)
- Y gweithlu (cynaliadwyedd, llesiant, hyfforddiant, ac ati)
- Gweithredu Rhaglen Datblygu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth
- Technolegau digidol

ASTUDIAETH ACHOS

Profiad, ansawdd a diogelwch – gwell cynllunio cydweithredol/integredig wrth ddarparu gwasanaethau i sicrhau bod profiadau dinasyddion o ymyriadau yn effeithiol a chynaliadwy, a hynny 'nawr ac yn y dyfodol.

Ymchwil, arloesedd, gwelliant a gwerth – ymgysylltu a darparu cymorth yn achos pob agwedd ar draws y sefydliadau cyflogi priodol, gan ddwyn timau ynghyd i hwyluso a chefnogi'r prosesau o drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Meithrin a gwella perthnasoedd gwaith ar draws partneriaid.
- Partneriaeth a chydweithio.
- Gweithredu Cyllidebu Cyfranogol

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

- Yn darparu arweinyddiaeth integredig ar draws y system, sy'n cynnwys Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol, Tai a'r Trydydd Sector.
- Mae gweithio mewn partneriaeth yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod llwybrau'n eglur i'r cyhoedd.

- Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithio yn caniatáu trafodaeth gyfunol ynghylch rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau, gan wella'r modd y darperir gofal, y mynediad ato, a'r defnydd o gyfleusterau/o'r ystad ar draws y fwrdeistref.
- Cysoni/cytuno ar drefniadau comisiynu.
- Creu cyfleoedd ar gyfer cyllidebau cyfun, cynigion cyfunol a gwariant ar y cyd.
- Yn darparu asesiad manwl o angen ar sail partneriaethau.
- Dealltwriaeth o asesiadau proffesiynol o fylchau, rhwystrau a chyfleoedd i'r gwasanaethau.
- Gwell cwmpas i'r Rhwydwaith Llesiant Integredig (IWN) ar draws y fwrdeistref.

Beth nesaf?

Parhau i:

- Weithio gyda phartneriaid i sefydlu gwasanaethau iechyd a llesiant cofleidiol
- Gweithio mewn partneriaeth o ran blaenoriaethu a rhesymoli ystadau
- Defnyddio dulliau ataliol, cyfleoedd cynnar a hunanreolaeth
- Defnyddio timau amlddisgyblaethol i wneud gwaith cyfeirio gweithredol
- Defnyddio llwybrau darbodus i wella gofal a gynlluniwyd
- Recriwtio, hyfforddi ac addysgu ein gweithlu i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

BPGI Caerffili
(Dwyrain, Gogledd
a De)



RGC Caerffili (Dwyrain, Gogledd a De)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Dwyrain Caerffili:

Jackie Reynolds
Jackie.Reynolds@wales.nhs.uk

Gogledd Caerffili

Heather Griffiths
Heather.Griffiths4@wales.nhs.uk

De Caerffili

Alun Edwards
Alun.Edwards@wales.nhs.uk

RGC Caerffili (Dwyrain, Gogledd a De)

Pwy ydym ni?

Mae Bwrdeistref Caerffili yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr o 278 km² (107 milltir sgwâr), ac yn ffinio â dau ddarparwr bwrdd iechyd arall, sef Bwrdd Iechyd Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ogystal ag â thair ardal Awdurdod Lleol yng Ngwent (Blaenau Gwent, Casnewydd a Thorfaen).

Jackie Reynolds: Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Dwyrain Caerffili

Heather Griffiths: Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Gogledd Caerffili

Alun Edwards: Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth De Caerffili

Eira Turner: Pennaeth y Gwasanaeth

Jonathan Lewis: Rheolwr y Rhwydwaith a Gwasanaethau Cymunedol

Clair Roper: Rheolwr y Rhwydwaith a Gwasanaethau Cymunedol

Neirin Rees: Rheolwr Gwella Gwasanaethau

Mari Burland: Swyddog Cynnal y Rhwydwaith

Stella Montgomery: Swyddog Cynnal y Rhwydwaith

Mae gan Gaerffili boblogaeth breswyl o tua 176,831 (Ystadegau Cymru, canol blwyddyn 2021) ac mae'r boblogaeth sydd ar gofrestr meddyg teulu, sef 187,000 o bobl, yn fwy na nifer y preswylwyr. Mae cleifion cofrestredig yn cael gofal iechyd a cymdeithasol y tu allan i'r ysbyty gan gontractwyr annibynnol, yr awdurdod lleol a sefydliadau trydydd sector.

Ledled Caerffili, mae'r contractwyr annibynnol yn cynnwys 20 o bractisau meddygon teulu, 43 o fferyllfeydd cymunedol, 25 o bractisau deintyddol, a 17 o bractisau optometreg.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Y prif flaenoriaethau strategol a amlygwyd yng Nghynllun Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Caerffili oedd:

1. Y Blynnydoedd Cynnar a Dechrau Gorau mewn Bywyd.
2. Iechyd Meddwl a Llesiant.
3. Cydnerthedd Cymunedol.

ASTUDIAETH ACHOS

Yn 2024, y buddsoddiad newydd mwyaf o du cyllidebau'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth oedd buddsoddiad mewn rolau cysylltwyr llesiant cymunedol cysylltiedig â phractisau meddygon teulu. Gwnaed hyn mewn cydweithrediad â'n partneriaid yn yr Awdurdod Lleol.

Bydd y Cysylltwyr Llesiant Cymunedol yn gweithio gyda phreswylwyr i nodi datrysiadau priodol i'w hanghenion cymhleth, gan adeiladu ar y gwaddol a'r perthnasoedd a feithrinwyd hyd yma, a chan symud i ddull ffres o adeiladu cymunedau cydnerth ar yr un pryd.

Mae effaith y dull hwn eisoes wedi darparu gwell profiad i unigolion ym mwrdeistref Caerffili, fel y mae'r enghraifft isod yn ei ddangos.

Ar ôl cael ei atgyfeirio gan ei feddyg teulu, bu i ŵr gweddwr a oedd yn cael trafferth â materion iechyd newydd a oedd yn effeithio ar ei symudedd a'i anadlu fynegi dymuniad i ailymgysylltu â'i hoffter o chwaraeon a chymdeithasu, er ar gyflymder arafach.

Teimlai hefyd fod tasgau o ddydd i ddydd yn ei lethu. Gyda'i ganiatâd, darparodd y Cysylltydd Llesiant wybodaeth am grwpiau lleol (Hwb Cyn-filwyr, grŵp cinio), a darparwyd cymorth cartref preifat (garddio, glanhau, siopa), a'i atgyfeirio i gael asesiad Therapi Galwedigaethol/Gofal a Thrwsio ar gyfer addasiadau i'w gartref (sedd yn y gawod, rheiliau). Darparwyd gwybodaeth am Deleofal (sêff allwedd, larwm gwddf) hefyd. Roedd y claf yn ddiolchgar, gan deimlo'n diogel ac yn fwy annibynnol.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Rhai o gyflawniadau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yng Nghaerffili:

- Cynyddu nifer y Cysylltwyr Llesiant Cymunedol a'u hymgorffori mewn practisau meddygon teulu a chymunedau.
- Estyn Cyfnodau Presgripsiynu – gwasanaethau meddygol cyffredinol a chydweithredfeydd fferyllol yn gweithio mewn partneriaeth.
- Cydgysylltydd y tîm amlddisgyblaethol/Cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol – cefnogi Rhaglen Brentisiaeth BIPAB.
- Llesiant Staff – y Guddfan Zen.
- Rhoi cydweithredfeydd proffesiynol ar waith – Nyrsio, Optometreg, Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Deintyddol a Fferylliaeth.
- Rhaglenni lleol cydweithredol, e.e. mae Optometreg wedi treblu nifer yr atgyfeiriadau at Helpa Fi i Stopio ac wedi rhoi cyflwyniad yn un o ddigwyddiadau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, Ehangu Cyfnodau Presgripsiynu Fferyllfeydd.
- Rhaglen Atal Diabetes – cyflwyno'r rhaglen ledled Caerffili.
- Bu i gyllidebu cyfranogol gefnogi wyth prosiect iechyd a llesiant ym Mlaenau Cwm Rhymni – wedi'u dewis gan breswylwyr lleol.
- Mae'r Gydweithredfa Optometreg wedi ymgorffori gweithgarwch rhoi'r gorau i smygau yn ei harchwiliadau llygaid arferol. Mae hyn wedi arwain at gynydd o 300% yn nifer yr atgyfeiriadau at Helpa Fi i Stopio.

- Rhaglen beilot ddiweddar i gefnogi plant 2-3 oed mewn lleoliadau cyn ysgol a meithrinfeydd i gael brechiad rhag y fflw yng ngogledd Caerffili.
- Buddsoddiad y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth mewn cymorth cwnsela iechyd Meddwl y trydydd sector.
- Ymarferwyr Iechyd Seicolegol yn gweithio yn Lleoliad pob Practis Meddygon Teulu.
- Cysylltwyr Llesiant Cymunedol yn cael eu cyflogi a'u hymgorffori yn holl bractisau meddygon teulu Caerffili trwy weithio mewn partneriaeth dda ag Awdurdod Lleol Caerffili.
- Bu i Ofal Seiliedig ar Le/waith Datblygu Hybiau trwy wella'r defnydd o safleoedd/ystafelloedd gynyddu'r cynnig o amrywiaeth ehangach o wasanaethau ar y lefel leol (e.e. gwasanaethau anadlol, diabetig, cwmpadau, awdioleg, ac ati).
- Ffisiotherapi cyswllt cyntaf – i gyd-fynd â phob practis meddygon teulu gan wella mynediad at asesiadau cyhyrsgerbydol yn y gymuned.
- Cynhaliodd y Rhwydwaith Llesiant Integredig, mewn partneriaeth â chysylltwyr llesiant, cydgysylltwyr llesiant natur, a Meddygfa Tŷ Bryn, ddigwyddiad llesiant dros dro a digwyddiad Rhedeg yn y Parc Coed Cefn-pwll-du.
- Dyrannodd Cyllidebu Cyfranogol gyllid i wyth prosiect llesiant yng Ngogledd Caerffili y cytunwyd arnynt trwy banel cyfranogiad dinasyddion.
- Digwyddiad Caerffili gyfan yn canolbwyntio ar y thema o atal, gan ddwyn ynghyd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i ddarparu cipolwg gwerthfawr ar strategaethau a mentrau iechyd a llesiant ataliol i ganolbwyntio ar ffyrdd o wella canlyniadau ar gyfer y boblogaeth leol.

A ydych wedi cael unrhyw wobrau neu gydnabyddiaeth yr hoffech eu rhannu?

Tair Gwobr Cydnabod Staff yn 2024; cafwyd cymeradwyaeth uchel a chydabyddiaeth yng ngwobrau Staff BIPAB:

- Gwobr Iechyd a Llesiant y Boblogaeth – Rhwydwaith Llesiant Integredig Caerffili
- Gwobr Gofal Iechyd Gwyrdd – Mari Burland Highly
- Gwobr Iechyd a Llesiant Cyflogeion – Stella Montgomery

Sefydlwyd Cydwethredfeydd Proffesiynol ledled Caerffili, gan arwain gyda Chydweithredfa Optometreg Gwent Gyfan, y mae ei llwyddiannau'n cynnwys Helpa fi i Stopio. Mae Optometreg Cymru yn cydnabod yr effaith ac yn bwriadu cyflwyno hyn ledled Cymru.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Fel yr amlygwyd yn ein cyflawniadau allweddol, mae partneriaethau ac ymdrechion cydweithredol wedi ein galluogi i wella'r gwasanaethau a ddarperir gennym a diwallu anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth yn well.

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys:

- Perthnasoedd gwaith da ledled aelodaeth graidd y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth.
- Ffocws cadarn ar gynaliadwyedd y gwasanaethau clinigol craidd.
- Ffocws cadarn ar arloesi/ddatblygu gwasanaethau.
- Tîm Arwain a Chefnogi ymrwymedig y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth.
- Perthnasoedd ymrwymedig a da â'r Rhwydwaith Llesiant Integredig.
- Cyfeiriad clir trwy gynllun y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ar dudalen o ran beth yw'r blaenoriaethau a'r modd y gall y rhain gael eu cyflawni trwy waith integredig/cydweithredol.
- Mae'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn darparu sianel ddwyffordd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.
- Datblygu modelau gofal a hybiau seiliedig ar le ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y boblogaeth leol.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?

Trwy fonitro ac adolygu'n barhaus, a thrwy ddefnyddio cylchoedd Cynllunio, Gwneud, Astudio, Gweithredu (PDSA) yn ôl yr angen, rydym wedi anelu at wneud y defnydd gorau posibl o'r holl adnoddau a buddsoddiadau sydd ar gael i'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'u partneriaid. Fodd bynnag, rydym wedi cydnabod nifer o wendidau a bygythiadau i ddarpariaeth y Rhwydweithiau, megis:

- Caiff cyllidebau Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth eu pennu'n rheolaidd, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer arloesedd newydd.

- Amrywioldeb blynyddol y cyllid (e.e. salwch, recriwtio a chadw).
- Mae gweithio sefydliadol a gweithio ar wahân yn creu rhwystrau i integreiddio.
- Heriau cynaliadwy yn y gweithlu gofal sylfaenol mewn rhai ardaloedd.
- Costau staffio cynyddol yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir, ochr yn ochr â'r pwysau ariannol a wynebwr gan contractwyr annibynnol o ganlyniad i gyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Anallu i drosi modelau effeithiol y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i sicrhau cyllidebau craidd yn cyfyngu ar fuddsoddiad yn y dyfodol.

Beth nesaf?

Adeiladu cymunedau cydnerth:

I gysoni gwaith y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r Rhwydweithiau Llesiant Integredig er mwyn datblygu model gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned trwy ddealltwriaeth ddyfnach o'r asedau cymunedol a'r anghenion lleol yn y boblogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol.

Annog gweithio cydweithredol â ffocws ar wella gwasanaethau:

I wella tegwch mynediad at wasanaethau ychwanegol/atodol ar draws contractwyr annibynnol a datblygu dull gweithredu amlbroffesiynol ar gyfer gwasanaethau iechyd Cynhwysiant.

Atal a rheoli cyflyrau hirdymor:

I leihau nifer y marwolaethau cyn amser a morbidrwydd trwy atal a rheoli diabetes a ffactorau risg ar gyfer clefyd cardiofasgwlaidd.



Cynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

Ein meysydd blaenoriaeth ni, y Bwrdd Iechyd, ar gyfer yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol dros gyfnod 2025-26 fydd symud ymlaen â'r meysydd canlynol a'u cyflawni:

- Cyflyrau Hirdymor – Rheoli ac Atal
- Mynediad a Chynaliadwyedd
- Ailgynllunio'r Gwasanaethau Pobl Hŷn
- Datblygu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a Phartneriaethau.

I gyflawni'r camau ar gyfer y meysydd blaenoriaeth uchod bydd yn hanfodol sicrhau bod yr holl alluogwyr sylfaenol yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ansawdd, a Diogelwch Cleifion
- Y Gweithlu, Llesiant Staff a Diwylliant
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Rheolaeth Ariannol
- Ystad Addas i'r Diben
- Technolegau Digidol
- Rhoi Gwerth ar Arloesedd ac Ymchwil.



RGC Caerffili
(Dwyrain, Gogledd a De)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Dwyrain Caerffili:
Jackie Reynolds
Jackie.Reynolds@wales.nhs.uk

Gogledd Caerffili
Heather Griffiths
Heather.Griffiths4@wales.nhs.uk

De Caerffili
Alun Edwards
Alun.Edwards@wales.nhs.uk

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Sir Fynwy

Pwy ydym ni?

Mae i Sir Fynwy safle strategol rhwng canolfannau allweddol yn Ne-ddwyrain Cymru, De-orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr; lleolir ei phrif aneddiadau yn y Fenni, Cas-gwent, Trefynwy, Cil-y-coed a Brynbuga. Mae patrwm anheddu nodedig Sir Fynwy yn deillio o'i threfi marchnad a phentrefi hanesyddol; mae oddeutu hanner y boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig. Mae'r sir yn cynnwys tir amaethyddol a ffermio da ei safon, ac fe'i hystyrir yn gyffredinol yn sir ffyniannus sy'n cynnig bywyd o ansawdd da i'w phreswylwyr. Datgelodd data fod yna lecynnau o amddifadedd i'w cael ledled Sir Fynwy, yn enwedig yn y Fenni, Trefynwy a Chil-y-coed, llecynnau sy'n fwyfwy amlwg o'u cymharu ag ardaloedd lleiaf difreintiedig yr un trefi.

Mae'r sir yn ymestyn o draethlin Gwastadeddau Gwent (yn y de), i ucheldiroedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yn y gogledd), ac i afon hardd Dyffryn Gwy, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (yn y dwyrain). Mae'n ffinio â Lloegr i'r dwyrain, Casnewydd a Thorfaen i'r gorllewin a Phowys i'r gogledd.

Mae rhwydweithiau ffyrdd da yn cysylltu Sir Fynwy â Chaerdydd a Chasnewydd a, thros y ddwy Bont Hafren, â Bryste, ac ers dileu Tollau Pontydd Hafren mae mwy o bobl yn manteisio ar y cysylltiadau hyn i gymudo allan o Sir Fynwy ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth.

- Gwasanaethau Clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/gwasanaethau cymunedol)

Cynrychiolir nifer o wasanaethau sy'n galluogi'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a'r ystod eang o flaenoriaethau i weithio. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, gan gynnwys: therapïau, gwaith cymdeithasol, nyrsio cymunedol, gofalwyr, comisiynu, iechyd meddwl, anableddau dysgu, seibiant, y trydydd sector, gwasanaethau plant a phobl ifanc, a gwasanaethau gofal sylfaenol.

Prif Swyddog, Cyngor Sir Fynwy (Cadeirydd)
Pennaeth Gwasanaeth – Sir Fynwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Cyd-gadeirydd)
Pennaeth Gwasanaeth – Sir Fynwy, Cyngor Sir Fynwy
Cyfarwyddwr Adrannol, Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Arweinydd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, GAVO
Rheolwr Grŵp ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Cyngor Sir Fynwy
Pennaeth Gwasanaeth Cynorthwyol, Sir Fynwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Rheolwr Rhwydweithiau a Gwasanaethau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Rheolwr Gwella Gwasanaethau Datblygu Clwstwr Carlam (DCC)/Swyddog Rhwydweithiau a Chymorth Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Rheolwyr Gwasanaethau Integredig
Arweinydd Rhwydweithiau Llesiant Integredig, Cyngor Sir Fynwy
Arweinydd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, GAVO

Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Uwch-nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Arweinwyr Clystyrau Cydweithredol Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth Sir Fynwy (Gogledd a De)
Cynrychiolydd Cyllid, Cyngor Sir Fynwy
Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Fynwy
Pennaeth Podiatreg ac Orthoteg ac Arweinydd Cydweithredol Proffesiynol y Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Cyfarwyddwr Adrannol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Ad hoc)
Dadansoddwr Cymorth Penderfyniadau, Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Cyfrifydd Partneriaid Busnes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Y Gweithlu a Datblygiad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Cyfathrebu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

ASTUDIAETH ACHOS

Cynhelir 'Sgyrsiau Cymunedol' yn y Fenni, Brynbuga, Trefynwy a Chas-gwent. Mae Sgyrsiau Cymunedol yn rhoi cyfleoedd i grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol gydweithio a nodi'r modd i ddiwallu anghenion lleol. Mae Cyngor Cymuned Brynbuga yn dangos sut y gall gwaith partneriaeth â nyrsys ardal, GAVO a grwpiau cymunedol/gwirfoddol lenwi bylchau mewn gwasanaethau, e.e. mae Mind Sir Fynwy, y Ganolfan Cymorth Gwledig a'r Bwrdd Iechyd yn archwilio'r modd i gefnogi cymunedau gwledig, ac ati, gyda chyfleoedd i staff y Bwrdd Iechyd bartneru â GAVO a Chyngor Sir Fynwy yn y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Blaenoriaethau Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig:

- Datblygu strategaeth y gweithlu.
- Cefnogi ymyriad cynnar a phrosesau atal ar draws sefydliadau partner.
- Gweithio mewn partneriaeth i ddeall y pwysau ar y system gyfan (iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector) a nodi cyfleoedd i gefnogi timau gwasanaethau integredig yn Sir Fynwy, e.e. Ehangu Gwasanaeth Meddygol (Eiddilwch) Cyflym y De i'r gogledd.
- Nodi'r pwysau sy'n deillio o ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd neu eu gofalwyr i ddod o hyd i atebion.
- Datblygu prosesau cyfathrebu/ymgysylltu traws-bartner i godi pontydd a goresgyn gwahaniaethau o ran yr iaith a'r gwaith gweithredol, ac ati.
- Hyrwyddo cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar draws yr ystad iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynyddu llywodraethu ariannol a thryloywder – cydweithio i lywodraethu ar Gytundeb Adran 33 a'r ffrydiau ariannu sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a'r Grŵp Prosiect, a'u goruchwyllo.
- Bwrw ymlaen â'r mentrau cenedlaethol Datblygu Clwstwr Carlam (DCC)/y Grŵp Cynllunio Traws-Glwstwr (PCPG), a hynny'n gysylltiedig â gofal sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, gydag adroddiadau chwarterol yn y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig).

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig yn strategol gyson â'r polisïau/themâu/rhaglenni lleol/cenedlaethol a ganlyn:

- Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (RhSaGS), e.e. Grymuso Pobl, Darparu Gofal yn Nes at y Cartref, Gofal Integredig Lleol.
- Meysydd Ffocws Gofal Seiliedig ar Leoedd (PBCC): 1. Meithrin cymunedau cydnerth; 2. Creu sylfeini cadarn ar draws gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol; 3. Adeiladu timau integredig ym mhob "lle"; 4. Gweithio ar y cyd ar raglenni atal a gwell gwasanaethau; 5. Gwella rhyngwyneb gofal canolraddol a gofal eilaidd.
- Tri nod trosfwaol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPR): Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, Cadw'n Iach.
- Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth/Datblygiad Clwstwr (Cydweithredol) Carlam: Rhaglen genedlaethol i gyflymu cynnydd clwstwr yn unol â'r pecyn cymorth.
- Model Gofal Sylfaenol i Gymru/Cymru Iachach
- Ailgynllunio Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn a/ neu Eiddil.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig hefyd yn:

- Darparu'r ôl troed lleol ar gyfer cyflawni Cynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn modd tactegol.
- Cydlynu'r defnydd o adnoddau sydd ar gael ar draws y bartneriaeth i ddiwallu anghenion lleol.
- Comisiynu gwasanaethau a datblygu cytundebau i gefnogi gweithio mewn partneriaeth.
- Defnyddio gwybodaeth gan glystyrau i sicrhau bod cynlluniau'n adlewyrchu anghenion y boblogaeth, yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael â materion a godwyd, ac yn darparu cyfeiriad strategol i lywio datblygiad cynlluniau'r priod glystyrau.



Sir Fynwy (Gogledd a De)

Sir Fynwy (Gogledd a De)

Y prif gyflawniadau?

Mae Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Sir Fynwy wedi rhoi proses eithrio chwarterol ar waith, proses sy'n galluogi arweinwyr prosiectau i adrodd am lwyddiannau, ac i uwchgyfeirio risgiau posibl yn nhermau'r gallu i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn helpu partneriaid i ddeall y problemau sy'n ymwneud â phwysau ar wasanaethau, ac i gael cymorth lle bo angen.

Ym mis Rhagfyr 2024, cyflwynodd y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Is-grŵp Prosiectau dan arweiniad GAVO ac iddo'r cylch gorchwyl i fonitro cyllideb gylchol berthynol i ddementia gwerth £200,000, ac i edrych ar opsiynau ariannu a allai gefnogi cynlluniau newydd.

Cyflawniad allweddol oedd agor ystafelloedd Technoleg Gynorthwyol yn Ysbyty Cymunedol Cas-gwent ac, yn ddiweddar, yn Nyffryn Mynwy. Rydym yn archwilio opsiynau i ailadrodd hyn mewn mannau eraill yn Sir Fynwy.

Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig – Gwasanaeth (Eiddilwch) Meddygol Cyflym

Mae ein timau integredig yn darparu gofal a/neu driniaeth angenrheidiol i bobl, a hynny naill ai gartref, neu mor agos at gartref â phosibl, gan hyrwyddo annibyniaeth bersonol trwy waith cydweithredol. Mae'r gwasanaethau wedi amlygu eu gwerth trwy ostwng nifer y derbyniadau i ysbyty y gellir eu hosgoi, trwy ddarparu llwybrau gofal amgen diogel, a thrwy leihau arosiadau mewn ysbyty o ganlyniad i hwyluso rhyddhau cynnar a diogel.

Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth/Clystyrau – yn gysylltiedig â Datblygu Clwstwr Carlam

Daw cynrychiolwyr o Gydweithfeydd Proffesiynol unigol at ei gilydd i asesu anghenion iechyd a llesiant ehangach eu poblogaeth (sydd fel arfer rhwng 25,000 a 100,000 o bobl) ac maent yn dibynnu ar Asesiad o Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i fod yn sail i gynlluniau clwstwr (blynyddol) y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Ceir dau Rwydwaith Gofal Cymdogaeth yn Sir Fynwy (yn y gogledd a'r de) ac iddynt rwydwaith proffesiynol cydweithredol sy'n cynnwys meddygon teulu, deintyddion, optometryddion, fferyllwyr, ymarferwyr iechyd meddwl, a staff gwasanaethau integredig, gan gynnwys: nyrsys ardal, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion, staff gofal uniongyrchol, bydrwagedd, dietegwyr, nyrsys arbenigol, cydlynwyr cysylltiadau iechyd a llesiant seicolegol, cynrychiolwyr tai a chyd-weithwyr y trydydd sector.

Datblygu Clwstwr Carlam – Mentrau Cydweithredol Proffesiynol (yn gysylltiedig â Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth)

Y mecanwaith trwy ba un y mae Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Practisau Deintyddol, Fferyllfeydd Cymunedol, Practisau Optometrïg, Nyrsys Cymunedol, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, ac eraill, yn dod at ei gilydd yn eu proffesiwn/grwpiau penodol. Mae ôl troed y clwstwr yn cefnogi'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ehangach wrth ystyried Asesiad o Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Lleol, ac yn nodi atebion lleol yn seiliedig ar wybodaeth ac arbenigedd lleol.

Y Trydydd Sector

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn gysylltiedig â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac yn aelod gweithgar o Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Mae cynllun strategol GAVO ar gyfer 2022-25 yn manylu ar y modd y mae'n aelod gweithgar o Fframwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent a'i strwythurau ategol, yn unol â deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae GAVO yn parhau i gefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a Chlystyrau'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, gan sicrhau bod llais cymunedau lleol yn cael ei gynrychioli. Ers nifer o flynyddoedd mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi bod mewn cyswllt agos â rhwydwaith helaeth o gymorth GAVO, ac adlewyrchir hyn yn ein cynlluniau.

Yr Hyn a Ddysgwyd?

Elfennau cadarnhaol

Mae adroddiadau eithrio/cynnydd chwarterol yn darparu ymwybyddiaeth o'r rhwystrau/risgiau o ran cyflawni cynlluniau, ac mae'r Is-grŵp Prosiectau wedi dileu'r elfen weithredol o'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig yn cynnal ffocws cyfatebol ar asesiadau o anghenion ac anghenion newidiol cymunedau. Gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gysoni'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Asesiadau Llesiant y Boblogaeth (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol): osgoi dyblygu, hyrwyddo cydweithio, a chydweithredu mewn ymateb i angen lleol.

Gellid bod wedi gwneud hyn yn wahanol

Byddai gweithredu Is-grŵp Prosiectau'n gynt wedi lleihau'r galw ar amser y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, gan ganiatáu mwy o ffocws ar symud ffrydiau gwaith strategol yn eu blaenau.

Beth nesaf?

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau blwyddyn 2 o gynllun y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig. Tua diwedd pob blwyddyn adrodd, rhoi ystyriaeth i'r themâu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y flwyddyn ganlynol, e.e. Wyth Egwyddor Marmot, i'w hasesu'n unol â fframwaith gwasanaethau cyfredol y bartneriaeth.

Parhau gyda'r agenda atal, gan edrych ar gysylltiadau rhwng cymorth sefydledig yn y gymuned, sy'n cynnwys Sgyrsiau Cymunedol seiliedig ar leoedd, a'r ganolfan lesiant newydd arfaethedig yn Osbaston, Trefynwy.

Datblygiad pellach mewn perthynas â'r llwybr ailalluogi 'derbyn' yn ein Gwasanaethau Integredig.

Cysylltiadau â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

Fel gyda Chynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd cyfredol y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, mae'r bwrdd yn parhau i fod yn ymwybodol o flaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol a GAVO wrth gytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd newydd.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig yn cydnabod ei rôl o fod yn is-grŵp i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn nhermau'r Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, ac mae wedi mabwysiadu blaenoriaethau Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd o fewn ei gynllun strategol ei hun, e.e. mae ailgynllunio gwaith y llwybr pobl hŷn yn cyd-fynd â blaenoriaeth 'system gyfan' y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, elfen sy'n cydnabod y boblogaeth hŷn/fwyaf bregus ac yn sicrhau bod gennym weithlu addas ar gyfer y dyfodol.

RGC Sir Fynwy

(Gogledd a De)

Pwy ydym ni?

Personél

Cefnogir Clystyrau Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Gogledd a De Sir Fynwy gan ddau Arweinydd Clinigol (meddyg teulu), Rheolwr Rhwydwaith, Rheolwr Gwella Gwasanaethau Datblygu Clwstwr Carlam, a Swyddog Cymorth. Mae gan y Rhwydweithiau gyllidebau cymharol fach, gyda chyfanswm cyfunol o tua £500,000, sy'n eu galluogi i brofi gwasanaethau newydd yn seiliedig ar angen a nodir a blaenoriaethau y cytunir arnynt. Dr Harries yw Arweinydd Rhwydwaith y Gogledd, ac mae ganddo sawl blwyddyn o brofiad yn rôl Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth a meddyg teulu yn Nhrefynwy. Dr Holtam yw Arweinydd Rhwydwaith y De, ac mae'n allweddol wrth weithredu prosiectau a chynlluniau newydd mewn ymateb i anghenion lleol a nodwyd. Mae gan y ddau Rwydwaith gynrychiolaeth o blith amrywiaeth o wasanaethau, yn cynnwys: practisau meddygon teulu, nyrsio cymunedol, lechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, iechyd meddwl sylfaenol/oedolion ac oedolion hŷn, y trydydd sector, tai, rheoli pwysau, Cyngor Sir Fynwy, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, fferyllfeydd cymunedol, deintyddol, optometreg, lechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau gofalwyr a phlant/teuluoedd.

Daearyddiaeth

Mae Gogledd Sir Fynwy, yn ôl cynllun blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn ardal wledig yn bennaf, ac ystyrir y De yn lled-wledig.

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/gwasanaethau cymunedol).

Mae Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth Sir Fynwy yn cynnwys rhwydwaith o 12 o bractisau meddygon teulu, dau dîm lechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, cyd-weithwyr yn y trydydd sector, ac eraill, i gyd yn gwasanaethu poblogaeth o tua 104,000 (tua 55,000 yn y Gogledd a 49,000 yn y De). Mae Rhwydwaith y Gogledd yn cynnwys saith practis meddygon teulu, ac mae yna bump yn y De.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Prif flaenoriaethau strategol

Adeiladu cymunedau cydnerth: Ein nod parhaus yw gweithio mewn partneriaeth i sicrhau y gall pobl yn Sir Fynwy a'r cyffiniau (mae tua 14,000 sy'n byw'r ochr arall i'r ffin wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu yn Sir Fynwy) fod yn rhan o'r rhwydwaith mawr o gymorth cymunedol ar sail lle.

Fodd bynnag, fel yn achos cynlluniau blaenorol, rydym yn parhau i gydnabod arwyddocâd cydweithio fel casgliad o gydweithredfeydd i ddeall anghenion pobl yn ein 'lleoedd' allweddol, ac i ddefnyddio hynny i lunio ein gwasanaethau mewn modd integredig i ddiwallu'r anghenion hyn ledled ardal ddaearyddol helaeth.

Mae'n hysbys bod Sir Fynwy yn wynebu heriau'n ymwneud â'i phoblogaeth hŷn sy'n cynyddu a lefelau uchel o alw ar draws y gwasanaethau sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol, a hynny am fod pobl yn byw'n hirach â chyflyrau hirdymor. Rydym yn cydnabod yr angen i osgoi derbyn pobl i'r ysbyty, lle bo hynny'n bosibl, am ein bod yn gwybod bod 'datgyflyru' ymhlith pobl hŷn yn cael effaith sylweddol. Rydym yn rhannu hyn fel blaenoriaeth â'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig ac yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn gyffredinol.

Rhwydwaith Llesiant: Mae Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn parhau i feithrin cydnerthedd cymunedol trwy gysylltiadau â GAVO a Rhwydweithiau Llesiant Integredig; trwy gynyddu gwybodaeth a deall anghenion pobl a chymunedau yn Sir Fynwy; trwy gefnogi ymyriad cynnar ac atal; a thrwy fentrau megis Sgyrsiau Cymunedol a datblygu Hybiau Gwybodaeth am Lesiant.

Y Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam: Gofal seiliedig ar le yn cael ei ddarparu gan Gydweithredfeydd a Chlystyrau Proffesiynol, ac yn cyd-fynd â GAVO, ac ati. Mae Cydweithredfeydd Proffesiynol yn feganweithiau ar gyfer dwyn ynghyd bractisau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, practisau Deintyddol, Fferyllfeydd Cymunedol, practisau Optometreg, Nyrsys Cymunedol, Proffesiynau Perthynol i lechyd ac, yn Sir Fynwy, y Trydydd Sector (GAVO), ledled ôl troed clystyrau a threfi, i nodi datrysiadau lleol ar y cyd.

ASTUDIAETH ACHOS

Y prosiect S.M.A.R.T.: 'Mae gweithio mewn clwstwr yn sicrhau bod y gofal yn cael ei gydlynu'n well i hybu llesiant unigolion a chymunedau.' Mae hwn yn cyflwyno prosiect Tîm Cymorth Chwim De Sir Fynwy (South Trefynwyshire Agile Response Team (S.M.A.R.T.)), sef rhaglen o gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol ac adolygiadau 'holistaidd' yn y gwasanaeth meddygol cyffredinol, sy'n helpu i amddiffyn ein pobl hŷn fwyaf agored i niwed trwy fynd ati cyn gynted â phosibl i nodi unrhyw niwed posibl, megis y risg o gwmpo

Dolen i gynlluniau perthnasol

Mae gwaith y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi'i gysylltu'n strategol ag amrywiaeth o bolisiau a chanllawiau cenedlaethol, fel y cyfeirir atynt isod.

RhSaGS: y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, e.e. Grymuso Pobl, Darparu Gofal yn Nes at y Cartref, Gofal Integredig Lleol.

BPR: tri nod trosfwaol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, Cadw'n Iach.

BPGI: blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig.

MGSiG/CI: y Model Gofal Sylfaenol i Gymru/Cymru Iachach.

neu ffactorau risg eraill y gallai fod arnynt angen cymorth ar eu cyfer, gan felly osgoi eu derbyn i'r ysbyty.

Mae proses adolygu y tîm amlddisgyblaethol yn ystyried ffactorau seicolegol, meddyliol, corfforol a chymdeithasol, yn hytrach na symptomau'r salwch yn unig, ac yn nodi cymorth posibl ar sail angen unigol o safbwynt meddygol, cymdeithasol a'r trydydd sector. Y bwriad yn 2025-26 yw cyflwyno set ddata gadarn a fydd yn dangos effeithiolrwydd y model hwn a modelau timau amlddisgyblaethol eraill sydd ar waith ledled ôl troed y Bwrdd lechyd.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

A ydych wedi cael unrhyw wobr neu gydnabyddiaeth yr hoffech eu rhannu?

- Dyfarnwyd MBE am wasanaethau i Ymarfer Cyffredinol i Dr Rowena Christmas, meddyg teulu ym Mhractis Dyffryn Gwy a chadeirydd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) yng Nghymru.
- Penodwyd Robert Denman, Llywodraethwr Carchardai Brynbuga a Phrescoed EF, yn Swyddog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE) yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth cyhoeddus eithriadol.

- Penodwyd Dr Sarah Neville, meddyg teulu partner, Meddygfa Tudor Gate, i swydd Deon Cyswllt ar gyfer hyfforddi meddygon teulu ar gyfer Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan a De Powys.
- Cafodd Tîm Integredig Sir Fynwy ei ddewis ar gyfer Gwobr y Cadeirydd yng ngwobrau Cydnabod Staff blynyddol y Bwrdd lechyd.
- Enillodd Dr Jaideep Kitson, Meddyg Ymgynghorol a Chyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Wobr am Arweinyddiaeth yng ngwobrau Cydnabod Staff blynyddol y Bwrdd lechyd.

RCG Sir Fynwy

(Gogledd a De)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Gogledd Sir Fynwy:

Dr Brian Harries
Brian.Harries2@wales.nhs.uk

De Sir Fynwy:

Dr Annabelle Holtam
annabelle.holtam@wales.nhs.uk



RCG Sir Fynwy (Gogledd a De)

Arweinydd y Clwstwr

Gogledd Sir Fynwy:

Dr Brian Harries
Brian.Harries2@wales.nhs.uk

De Sir Fynwy:

Dr Annabelle Holtam
annabelle.holtam@wales.nhs.uk

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Beth a aeth yn dda?

- **Parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau sy'n gysylltiedig â gwella ymateb Gofal Sylfaenol, gan feithrin galluedd a chydnerthedd:**
- **Fferyllwyr wedi'u Lleoli mewn Practisau (Gogledd)** – creu capasiti meddygon teulu ag arbenigedd lleol.
- **Rheolwr Practis arweiniol (Gogledd a De)** – cydgysylltu'r ddau glwstwr, gan sicrhau effeithlonrwydd a rhannu arfer da, ac ati.
- **Fforwm Diogelu dan arweiniad Meddygon teulu (Gogledd a De)** – arbenigedd a gwybodaeth a rennir ar draws y gwasanaethau meddygol cyffredinol.
- **Gwasanaeth Cynghorwyr Cyswllt Llesiant (Gogledd a De)** – ymateb i benderfynyddion cymdeithasol afiechyd.
- **Ymarferwyr Iechyd Seicolegol (Gogledd)** – mynediad lleol i asesiadau/gymorth iechyd meddwl.
- **Cynllun Gaeaf Blynnyddol** – dwyn ynghyd wasanaethau sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol a'r trydydd sector i gynllunio ar gyfer y pwysau a ragwelir ar y gwasanaethau, ac anghenion ein pobl fwyaf agored i niwed.
- **Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam** – adroddiadau 'sbotolau' yn helpu i nodi risgiau ac anghenion y gwasanaeth. Nod Datblygu Clwstwr Carlam yw sicrhau bod grwpiau cydweithredol ar yr un lefel o aeddfedrwydd.
- **Y niferoedd sy'n cael eu himiwneiddio:** Mae'r data'n cadarnhau bod practisau meddygon teulu Sir Fynwy wedi perfformio'n rhagorol o'u meirgodi yn erbyn practisau Gwent. Parhau i geisio cyflawni'r targed cenedlaethol o 75% ym mhob carfan yn ystod pob tymor.
- Bu i giplun o'r brechiadau COVID ym mis Hydref 2024 gadarnhau mai yn Sir Fynwy y cafodd y nifer mwyaf eu brechu yn BIPAB, sef 47.6%. Yn Sir Fynwy hefyd y cafodd y nifer mwyaf o breswylwyr cartrefi gofal yn BIPAB eu brechu, sef 78.8%.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?

- Symud ymlaen â'r rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, deall rolau proffesiynol, ac ansicrwydd parhaus ynghylch pa mor barhaus yw'r rhaglen a'r cyllid.
- Cydnabuwyd y pwysau parhaus ar wasanaethau sylfaenol a chymunedol o ganlyniad i boblogaeth sy'n cynyddu a datblygiadau tai newydd.
- Risg ariannol: ansicrwydd yn sgil y Llywodraeth yn cynyddu'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn 2024-25 – cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd yng nghyfarfodydd contract y Cystyrau i fonitro'r effaith ar recriwtio a chadw ymhlith contractwyr gofal sylfaenol.
- Risg bosibl i brosiectau a ariennir gan y clwstwr o ganlyniad i effaith dyfarniadau cyflog y GIG.

- Mae'r effaith barhaus ar iechyd meddwl a llesiant pobl wedi arwain at gynydd yn y galw am gymorth lleol, sy'n cael ei fesur trwy ein Cynghorwyr Cyswllt Llesiant a'n Hymarferwyr Iechyd Seicolegol a ariennir ar y cyd. Mae'r data'n dweud wrthym bod nifer y cysylltiadau ar gyfer gwasanaeth y Cynghorwyr Cyswllt Llesiant wedi mwy na dyblu yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n golygu effaith gynyddol ar bobl Sir Fynwy yn sgil y costau cynyddol.
- Diffyg cyllid ar gyfer datblygiadau, mentrau a chyfleoedd newydd mewn perthynas â'r gwasanaeth a anelir at leihau'r pwysau.
- Breuder posibl mewn perthynas â rhai cydweithredfeydd a'u gallu i aeddfedu ar yr un gyfradd â rhai eraill – diffyg cymhelliant/cydnabyddiaeth gontractiol/cymorth gweinyddol/cynrychiolaeth uwch sy'n aml â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro (yn arbennig Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd).

Beth nesaf?

Adeiladu cymunedau cydnerth

Cysoni gwaith y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r Rhwydweithiau Llesiant Integredig i ddatblygu model gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned, a hynny trwy ddealltwriaeth ddyfnach o'r asedau cymunedol a'r anghenion lleol yn y boblogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol.

Sicrhau bod gan Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth ddealltwriaeth dda o Rwydweithiau Llesiant Integredig er mwyn defnyddio asedau cymunedol, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu i gynnal neu ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymdeithasol.

Adeiladu timau cymdogaeth integredig ym mhob "lle"

Sefydlu gwaith tîm amlddisgyblaethol ar gyfer pobl â chyflyrau mwy cymhleth, a'r rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio a wynebu digwyddiadau anffafriol megis cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae'r dull tîm amlddisgyblaethol hwn yn gofyn am ofal cydlynol, gweithwyr ailalluogi ymrwymedig, timau nyrsio arbenigol, fferyllwyr clinigol, tîm iechyd meddwl cymunedol, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, tai, a sefydliadau trydydd sector.

Cydweithio ar raglenni atal a gwasanaethau ychwanegol

Hwyluso dull cydweithredol wrth ddarparu gwasanaeth atal diabetes a rheoli ffactorau risg clefyd cardiofasgwlaidd er mwyn sicrhau y gall y rhaglenni gael eu cyflawni mewn modd systematig ac ar raddfa fawr ledled y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Parhau i hyrwyddo ein model 'presgripsiynu cymdeithasol' i gysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau, a gwasanaethau yn eu cymuned sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol.

Sefydlu darpariaeth gwasanaethau atodol/ychwanegol sy'n deg ac o ansawdd uchel ar draws pob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gyda ffocws cychwynnol ar osod IUDau, mân lawdriniaethau, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Casnewydd

Pwy ydym ni?

Caiff Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Casnewydd ei gadeirio ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a Chyngor Dinas Casnewydd. Yn ogystal ag Arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a chynrychiolaeth o'r Bwrdd Iechyd, mae'n cwmpasu amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Tai, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector.

Mae Casnewydd yn ddinas amlddiwylliannol, a'i phoblogaeth yn 164,702 (yn ôl yr unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda meddygon teulu). Mae cyfanswm y boblogaeth yn fwy o bum mlynedd na data'r boblogaeth amcanestynedig gan Stats Cymru – rhagwelwyd na fyddai'n cyrraedd y ffigur hwn hyd nes 2028.

Casnewydd sydd â'r gyfran uchaf o bobl yng Nghymru o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gyda 48 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad ymhlith 20 o gymunedau a nodwyd. Nodwyd bod 2,340 o aelwydydd yng Nghasnewydd nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel eu prif iaith.

Mewn perthynas â grwpiau Iechyd Cynhwysiant, mae'r boblogaeth ddigartref ac sy'n cysgu allan ar gynnydd. Mae nifer cofrestredig y bobl sy'n cysgu allan yn y ddinas wedi codi o 21 ym mis Ionawr 2021 i 47 ym mis Ionawr 2023. Mae'r broses ddiweddar o ailsefydlu ffoaduriaid o Wcráin wedi cynyddu nifer y ffoaduriaid yn ardal Casnewydd, yn ogystal â'r ceiswyr lloches sy'n cael caniatâd i aros ac ymgartrefu yn yr ardal.

Mae gan Gasnewydd boblogaeth sy'n heneiddio, ac ar hyn o bryd mae ei phoblogaeth dros 65 oed yn 27,510. Amcangyfrifir y bydd y boblogaeth sy'n heneiddio yn 37,241 erbyn 2039.

Mae diweithdra, incwm isel, lefelau sgiliau gwael, a throedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio yn anghymesur ar rai cymdogaethau. Yn ôl data Stats Cymru, mae Pillgwenlly yng ngorllewin y ddinas yn safle 10 o ran ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, ac mae ardal Ringland yn y dwyrain yn y 69ain safle. Hefyd, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cyhoeddi'n ddiweddar bod tua 9,000 o unigolion ar y rhestrau aros am dai cymdeithasol.

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/ gwasanaethau cymunedol)

- 17 o bractisau meddygon teulu
- 16 o bractisau deintyddol
- 13 o optometryddion
- 27 o fferyllyfeydd cymunedol
- Gwasanaethau'r Trydydd Sector (Pob Rhestr – Eich Casnewydd, Eich Lles)

Ar beth yr ydym yn gweithio?

- Cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn lleol
- Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth
- Sicrhau bod cynlluniau'n adlewyrchu angen y boblogaeth
- Gofal Seiliedig ar Leoedd
- Ailgynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn
- Dull system gyfan o ymdrin â bwyta'n iach
- Cynyddu'r nifer sy'n derbyn imiwneiddiadau plentyndod
- Ymgysylltu â grwpiau agored i niwed

Beth nesaf?

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

- Brechiadau plentyndod, gan gynnwys y potensial ar gyfer clinigau dros dro yn rhan o'r gwaith o adfywio asedau Cyngor Dinas Casnewydd
- Dull System Gyfan o Reoli Pwysau yn Iach a chynllun peilot penodol ar gyfer cymorth costau byw, a hynny trwy'r Partneriaethau Bwyd Cymunedol, gydag is-grŵp wedi'i sefydlu ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar Dodi Bwyd
- Cynnydd pellach o ran Gofal Seiliedig ar Leoedd, gan gynnwys gwell model Presgripsiynu Cymdeithasol
- Ailgynllunio'r Gwasanaeth ar gyfer Pobl Hŷn, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer gofal cam-i-fyny/cam-i-lawr yn dilyn ymgynghoriadau a chanlyniadau Gerddi'r Gwanwyn a Parklands
- Ymgysylltu â'r grŵp Iechyd Cynhwysiant wrth gynllunio model cymorth amlasiantaethol
- "Canolfannau" Cymunedol ac adfywio asedau Cyngor Dinas Casnewydd – cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chydweithio, yn enwedig yn achos canolfan ganolog ar gyfer grwpiau Iechyd Cynhwysiant.



BPGI Casnewydd

RGC Casnewydd (Dwyrain)

Pwy ydym ni?

Yng Nghasnewydd, mae yna ddau Rwydwaith Gofal Cymdogaeth sy'n gwasanaethu poblogaeth o tua 164,702 o bobl. Mae'n ddinas o ddwy hanner, lle mae'r mwyaf cyfoethog yn cwrdd â'r mwyaf difreintiedig. Mae dros 48 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad yma o 20 o wledydd gwahanol. Casnewydd sydd â'r ail gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n hanu o gefndir Du ac Ethnig Leiafrifol, ac mae'n ardal gwasgaru ceiswyr lloches.

Tîm Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Dwyrain Casnewydd: Leah MDCConald, Louise Williams, Nicola Cook, Kate Hopkins, Daniel Kendall a Maxine Spoke yng Nghanolfan Iechyd a Lles Victoria House/19 Hills, Casnewydd.

Mae naw practis meddygon teulu yn gweithredu yn ardal Clwstwr Dwyrain Casnewydd:

- Canolfan Gofal Sylfaenol Beechwood
- Canolfan Feddygol Llyswry
- Meddygfa'r Parc
- Canolfan Iechyd Ringland
- Y Feddygfa Rygbi
- Canolfan Iechyd Underwood
- Clinig Richmond
- Canolfan Feddygol Isca
- Canolfan Feddygol St Julian

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/gwasanaethau cymunedol)

- 9 practis meddygon teulu
- 7 practis deintyddol
- 7 optometrydd
- 15 o fferyllfeydd cymunedol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Adeiladu Cymunedau Cydnerth

Creu modelau gofal seiliedig ar le a dulliau ataliol o ddarparu gwasanaethau er mwyn helpu i wella cydnerthedd cymunedau lleol.

Mae gofal seiliedig ar le yn ddull o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael mewn ardal benodol er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau trwy:

- Gydweithrediad
- Adnoddau a rennir
- Cynllun lleol
- Ymyriadau targededig
- Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon

Gall gofal seiliedig ar le arwain at ganlyniadau cadarnhaol, megis: llai o ymweliadau â'r adran damweiniau ac achosion brys, amseroedd aros llai ar gyfer asesiadau iechyd, gwell boddhad â'r cymorth a geir, a gwell gwerth am arian.

Mae adeiladu cymunedau cydnerth yn golygu datblygu gallu unigolion a chymunedau i ymateb i argyfyngau a heriau eraill. Mae rhai strategaethau ar gyfer meithrin cydnerthedd yn cynnwys:

- Grymuso cymunedau
- Gwella mynediad at wasanaethau
- Cynnwys grwpiau agored i niwed
- Gwella sgiliau cyflogaeth
- Datblygu rhwydweithiau cymdeithasol
- Cefnogi iechyd meddwl
- Dysgu pethau newydd
- Bod yn ymwybodol o ragfarnau

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills

Bydd y datblygiad iechyd a llesiant hwn, sy'n werth £28 miliwn, yn cael ei drosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd ar 28 Tachwedd 2024. Bydd dull fesul cam yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau yn yr adeilad rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2025. Dyma'r gwasanaethau a fydd ar gael:

- Practis Meddygol Ringland
- Meddygfa'r Parc
- Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol
- Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol
- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl
- Podiatreg
- Therapi Lleferydd ac Iaith
- Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd
- Nyrsio Ysgolion
- Iechyd Rhywiol
- Lymffoedema
- Seicoleg Plant a Theuluoedd
- Nyrsio Ardal
- Awdioleg
- Asesu'r Cof
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed
- Deieteg
- Rheoli Pwysau
- Plant sy'n Derbyn Gofal
- Adferiad Pediatrig yn Dilyn Salwch
- Adferiad
- Clinig Afu/lau Cymunedol
- Grwpiau Llesiant Cymunedol

Cynaliadwyedd

Parhau i geisio creu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy a fydd yn gallu diwallu anghenion y boblogaeth ar unwaith ac am y dyfodol rhagweladwy. Parhau i gefnogi ac ariannu gwasanaethau statudol ac anstatudol er mwyn lleihau'r effaith ar amser meddygon teulu, er enghraifft:

- Ymarferwyr Iechyd Seicolegol
- Fferyllwyr y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth wedi'u lleoli mewn Practisau
- Gweithwyr Cyswllt

Datblygu Clwstwr Carlam

Mae Cydweithredfeydd Proffesiynol yn rhwydweithiau o weithwyr proffesiynol ag arbenigedd a sgiliau cyffredin sy'n cydweithio i asesu anghenion y boblogaeth.

Nod y ganolfan yw:

- Sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd y cael eu darparu mewn adeiladau o ansawdd uchel sy'n addas i'r diben
- Dod â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y trydydd sector, a darparwyr eraill at ei gilydd o dan yr un to i sicrhau dull cydgyssylltiedig o ymdrin ag iechyd a llesiant.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd a'n partneriaid trydydd sector, y Ganolfan Iechyd a Llesiant, yn ffurfio rhan o hwb cymunedol bywiog a fydd ar gael i breswylwyr Dwyrain Casnewydd.



RGC Casnewydd
(Dwyrain)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Dwyrain Casnewydd:

Dr Graeme Yule
Graeme.Yule2@wales.nhs.uk

Beth nesaf?

Y Gweithlu

- Cryfhau'r gweithlu presennol i sicrhau parhad busnes. Meithrin ymgysylltiad â chyflogeion trwy eu datblygu a'u cefnogi a throsglwyddo gwybodaeth trwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Nodi unrhyw fylchau a mynd ati i recriwtio ar gyfer rolau estynedig er mwyn rhoi hwb i'r gweithlu presennol.
- Pe byddai cyllid ychwanegol yn dod ar gael i'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, yna gallai'r adnoddau staff gael eu cynyddu yn y tîm gofal seiliedig ar le. Cynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Gofal Seiliedig ar Le

- Bydd y model gofal seiliedig ar le yn parhau i fod yn gyfrwng trosfwaol ar gyfer llywio a chyflawni blaenoriaethau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yng Nghasnewydd. Bydd y Rhwydwaith yn parhau i weithio mewn partneriaethau sy'n drefniadau cydweithredol rhwng sefydliadau â chyfrifoldeb am drefnu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal a phartïon eraill sydd â rôl o ran gwella iechyd a llesiant. Bydd model Gofal Seiliedig ar Le Casnewydd yn parhau i nodi rolau a fydd yn ategu ac yn cryfhau proses y tîm amlddisgyblaethol.
- Parhau â model y tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod y bobl sydd â'r cyflyrau mwyaf cymhleth ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio ac wynebu digwyddiadau anffafriol, megis cael eu derbyn i'r ysbyty, yn byw bywydau diogel, annibynnol a chyflawn. Bydd y dull tîm amlddisgyblaethol hwn yn gofyn am gydlyn gofal, ac am fewnbwn ymrwymedig o du gweithwyr ailalluogi, timau nyrsio arbenigol, fferyllwyr clinigol, tîm iechyd meddwl cymunedol, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, tai, a sefydliadau trydydd sector.

Ardal Casnewydd o gymharu â Lleoedd

- Mae Strategaeth Ystadau Casnewydd wedi cael ei chreu sy'n darparu ôl troed o'r cymdogaethau yn y ddinas. Bydd hyn yn darparu sail o ran nodi'r cydbwysedd cywir rhwng strwythurau sy'n galluogi'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i gynllunio gofal effeithiol ac effeithlon ar gyfer y boblogaeth leol gan hefyd alluogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gael ei ddarparu i ddiwallu anghenion unigolion yng nghyd-destun eu cymuned leol.
- Mae gwaith cydweithredol yn ofynnol wrth i'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig symud ymlaen o ran argaeledd setiau data i wella'r broses ataliol o haenu risgiau ac adnabod achosion er mwyn rhoi blaenoriaeth i bobl sydd, er enghraifft, yn dioddef o eiddilwch cymedrol neu ddifrifol. Trwy ddadansoddi a chysylltu setiau data ar ofal wedi'i gynllunio, byddai wedyn yn bosibl nodi carfanau a allai fod wedi cael cymorth yn gynt yn y gymuned trwy gyfrwng cymorth amlbroffesiynol rhagweithiol.

Presgripsiynu Cymdeithasol/Cysylltydd Cymunedol

- Cryfhau'r tîm amlddisgyblaethol trwy gyfrwng rolau ychwanegol ac amrywiol. Mae rôl cysylltydd cymunedol wedi cael ei nodi o ran bod yn rôl gyswllt a fydd yn cael ei chyflogi gan Gyngor Dinas Casnewydd, a bydd yn rhan o'r elfen Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor. Mae'n darparu apwyntiadau wyneb yn wyneb a bydd yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i rymuso cleifion i adnabod eu hanghenion, eu cryfderau a'u hasedau personol eu hunain. Bydd y cysylltydd cymunedol hefyd yn gweithredu fel cyfrwng i gysylltu

cleifion â'u cymunedau eu hunain i gael cymorth gyda'u hiechyd a'u llesiant personol. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi cael ei greu sy'n amlinellu diben ac amcanion y rôl, ac mae papur wedi cael ei gyflwyno i ofyn am gyllid i ganiatáu Cysylltydd Cymunedol peilot ar gyfer Meddygfa Bellevue a Meddygfa Ringland.

Rhwydwaith Llesiant Integredig

- Gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Llesiant Integredig a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO), a chysoni blaenoriaethau i wella llesiant, gan gefnogi unigolion i newid ymddygiadau nad ydynt yn iach a chynyddu eu hymwrthedd i glefydau.
- Gweithio'n gydweithredol â'r Rhwydwaith Llesiant Integredig mewn perthynas â Threftadaeth ac Iechyd i hybu cydweithrediad mewn cymunedau amrywiol yng Nghasnewydd, a hynny er mwyn gwella dealltwriaeth a mynediad at wasanaethau iechyd a chymorth cymunedol, fel ei gilydd, yn cynnwys sgrinio cymunedol a brechiadau, a meithrin ymwybyddiaeth o gymorth ataliol ar gyfer iechyd a llesiant. Mae diabetes, dementia ac iechyd menywod wedi cael eu nodi'n flaenoriaethau. Yn ogystal â darparu gweithdai gan gyfoedion ar gyfer diabetes, dementia ac iechyd menywod, mae ymgysylltiad â'r gymuned hefyd wedi nodi'r angen i ddarparu cymorth i wella cydnerthedd ar lawr gwlad trwy wneud y canlynol:
 - Rhoi hyfforddiant i arweinwyr cymunedol ac unigolion â diddordeb ar Sicrhau Bod Pob Cyswllt yn Cyfrif (MECC), Pum Ffordd at Les, Cymorth Cyntaf, Cysylltu 5 a Sgrinio, a sgiliau maeth ar gyfer bywyd, a hynny er mwyn iddynt ddarparu newidiadau o ran ffordd iach o fyw i'w cymunedau.
 - Uwchsgilio gofalcwyr di-dâl – megis cynnig hyfforddiant ar gynnal bywyd sylfaenol, yn arbennig y rheiny sy'n gofalu am blant anabl a chyflyrau cyffredinol eraill
- Bydd y gwaith yn parhau i nodi a datblygu 'canolfannau' cymunedol ar gyfer adnoddau llesiant yn y gymuned.
- Sicrhau y gall 'canolfannau' cymunedol gysylltu pobl ag adnoddau iechyd a llesiant, gweithgareddau, a phobl/dinasyddion eraill i gefnogi eu llesiant eu hunain.
- Cysoni gwaith y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r Rhwydweithiau Llesiant Integredig i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o fodel gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned, a hynny trwy asedau cymunedol ac anghenion lleol yn y boblogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol.

- Sicrhau bod gan Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth ddealltwriaeth dda o Rwydweithiau Llesiant Integredig er mwyn defnyddio asedau cymunedol, megis grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu i gynnal neu ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymdeithasol.
- Cydgynhyrchu model 'presgripsiynu cymdeithasol' sy'n cysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau a gwasanaethau yn eu cymuned a all fynd i'r afael â'u hanghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol.

Rhaglenni Atal a Gwasanaethau Ychwanegol

- Sefydlu darpariaeth gwasanaethau atodol/ychwanegol sy'n deg ac o ansawdd uchel ar draws pob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gyda ffocws cychwynnol ar ddyfeisiau atal cenhedlu yn y groth (IUD), mân lawdriniaethau, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Hwyluso dull cydweithredol wrth ddarparu gwasanaeth atal a rheoli diabetes a ffactorau risg ehangach clefyd cardiofasgwlaidd (yn cynnwys gorbwysedd) er mwyn sicrhau y gall y rhaglenni gael eu cyflawni mewn modd systematig ac ar raddfa fawr ledled y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Cyflyrau Cronig

Parhau i fonitro cyfraddau lleol cyflyrau cronig trwy'r data Dadansoddi Anghenion y Boblogaeth. Mae diabetes ymhlith oedolion wedi cynyddu 40% i 212,716 yn 2021-22. Mae gan Gasnewydd y nifer uchaf o achosion o ddiabetes yng Nghymru, sef 8.7%, ac felly pennwyd bod diabetes yn un o flaenoriaethau allweddol yr is-adran. Anelu at leihau nifer yr oedolion sy'n byw â diabetes.

Iechyd Meddwl

Parhau i gefnogi problemau iechyd meddwl y boblogaeth leol a lleihau'r galw am y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn yr ardal hon.

Cydweithredfeydd Proffesiynol

Darparu arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer cydweithio neu weithio ar raddfa fawr i greu mwy o sefydlogrwydd ac i ddarparu gwasanaethau dan gontract mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Boblogaeth

Parhau i ymgysylltu â'r boblogaeth mewn perthynas ag iechyd a llesiant.

Dolenni i Gynlluniau Strategol

- Y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
- Cymru Iachach
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Ymhellach yn Gyflymach
- Rhanbarth Marmot Gwent a'r Cynllun Llesiant.



RGC Casnewydd (Dwyrain)

Arweinydd Clwster/RGC

Dwyrain Casnewydd:

Dr Graeme Yule
Graeme.Yule2@wales.nhs.uk

RGC Casnewydd (Gorllewin)

Pwy ydym ni?

Yng Nghasnewydd, mae yna ddau Rwydwaith Gofal Cymdogaeth sy'n gwasanaethu poblogaeth o tua 164,702 o bobl. Mae'n ddinas o ddwy hanner, lle mae'r mwyaf cyfoethog yn cwrdd â'r mwyaf difreintiedig. Mae dros 48 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad yma o 20 o wledydd gwahanol. Casnewydd sydd â'r ail gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n hanu o gefndir Du ac Ethnig Leiafrifol, ac mae'n ardal gwasgaru ceiswyr lloches.

Tîm Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Gorllewin Casnewydd: Leah MDCConald, Louise Williams, Nicola Cook, Kate Hopkins, Daniel Kendall a Maxine Spoke yng Nghanolfan Iechyd a Lles Victoria House/19 Hills, Casnewydd.

Mae saith practis meddygon teulu ar waith yn ardal Clwstwr Gorllewin Casnewydd:

- Canolfan Iechyd Malpas Brook
- Clinig Westfield
- Practis Tŷ-du
- Meddygfa Bryngwyn
- Clinig Dewi Sant
- Meddygfa Bellevue
- Clinig St Paul

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/gwasanaethau cymunedol)

- 7 practis meddygon teulu
- 9 practis deintyddol
- 5 optometrydd
- 12 o fferyllfeydd cymunedol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Adeiladu Cymunedau Cydnerth

Creu modelau gofal seiliedig ar le a dulliau ataliol o ddarparu gwasanaethau er mwyn helpu i wella cydnerthedd cymunedau lleol.

Mae gofal seiliedig ar le yn ddull o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael mewn ardal benodol er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau trwy:

- Gydweithrediad
- Adnoddau a rennir
- Cynllun lleol
- Ymyriadau targededig
- Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon

Gall gofal seiliedig ar le arwain at ganlyniadau cadarnhaol, megis: llai o ymweliadau â'r adran damweiniau ac achosion brys, amseroedd aros llai ar gyfer asesiadau iechyd, gwell boddhad â'r cymorth a geir, a gwell gwerth am arian.

Mae adeiladu cymunedau cydnerth yn golygu datblygu gallu unigolion a chymunedau i ymateb i argyfyngau a heriau eraill. Mae rhai strategaethau ar gyfer meithrin cydnerthedd yn cynnwys:

- Grymuso cymunedau
- Gwella mynediad at wasanaethau
- Cynnwys grwpiau agored i niwed
- Gwella sgiliau cyflogaeth
- Datblygu rhwydweithiau cymdeithasol
- Cefnogi iechyd meddwl
- Dysgu pethau newydd
- Bod yn ymwybodol o ragfarnau

Astudiaethau Achos ar gyfer Gofal Seiliedig ar Le

Mae yna nifer o astudiaethau achos sy'n dangos y modd y mae'r tîm Gofal Seiliedig ar Le a'r dull gweithredu cyffredinol wedi bod yn cefnogi pobl ag anghenion cymhleth.

Cynaliadwyedd

Parhau i geisio creu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy a fydd yn gallu diwallu anghenion y boblogaeth ar unwaith ac am y dyfodol rhagweladwy.

Parhau i gefnogi ac ariannu gwasanaethau statudol ac anstatudol er mwyn lleihau'r effaith ar amser meddygon teulu, er enghraifft:

- Ymarferwyr Iechyd Seicolegol
- Fferyllwyr y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth wedi'u lleoli mewn Practisau
- Gweithwyr Cyswllt Llesiant

Cydweithredfeydd Proffesiynol

Parhau i ddatblygu cydweithredfeydd proffesiynol i gryfhau ymwneud amlbroffesiynol â'r broses o gynllunio a gweithredu rolau a modelau newydd ar gyfer darparu gofal.

Maes ffocws â blaenoriaeth – Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth/Rhwydweithiau Llesiant Integredig	Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y ddwy flynedd nesaf
Gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth, yn cynnwys pobl ag eiddilwch cymedrol neu ddifrifol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny)	Galluogi pobl ag anghenion cymhleth i fyw bywydau diogel, annibynnol a chyflawn gartref, a lleihau eu risg o wynebu digwyddiadau anffafriol oherwydd eu salwch neu eu hamgylchiadau cymdeithasol, yn cynnwys mynd i'r ysbyty neu gael eu derbyn i'r ysbyty lle gellir osgoi hynny, sy'n aml yn arwain at ddatgyflyru a cholli gallu gweithredol a chorfforol, cyflwr na ellir ei wrthdroi yn aml.
Afiachedd neu farwolaeth gynamserol o ganlyniad i ddiabetes a ffactorau risg cardiofasgwlaidd	Galluogi pobl i leihau'r risg o farw cyn amser o glefyd cardiofasgwlaidd trwy ganfod achosion o orbwysedd, optimeiddio'r broses o reoli pwysedd gwaed, atal diabetes rhag cychwyn, a lleihau'r risg o gymhlethdodau macrofasgwlaidd a microfasgwlaidd ymhlith pobl sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes math 2.
Cysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau a gwasanaethau anfeddygol yn eu cymuned	Gwella llesiant meddyliol a chorfforol trwy gysylltu pobl â gwasanaethau, grwpiau a gweithgareddau anfeddygol yn eu cymuned leol sy'n cynnig cymorth emosiynol, cysylltiadau cymdeithasol, neu gyfleoedd i fod yn fwy egniol, neu sy'n darparu cymorth ymarferol ar gyfer achosion iechyd gwael megis problemau o ran tai, diweithdra, perthnasoedd neu faterion ariannol.
Mynediad teg at wasanaethau ychwanegol neu atodol	Sicrhau bod pobl yn cael mynediad teg ac o ansawdd uchel at wasanaethau atodol/ychwanegol, gyda ffocws cychwynnol ar osod IUDau, mân lawdriniaethau, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.
Cymorth i newid ymddygiad	Sicrhau bod pobl yn cael mynediad amserol at gymorth unigol, grŵp a hunangyfeiriedig i newid ymddygiad, a hynny ar raddfa sy'n debygol o gael effaith ar y boblogaeth.
Ymgysylltu â'r gymuned a meithrin galluedd	Defnyddio a gwella asedau cymunedol a grymuso pobl i arwain mentrau sy'n gwella rhwydweithiau cymorth cymdeithasol a chydnerthedd cymunedol.

RGC Casnewydd
(Gorllewin)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Gorllewin Casnewydd:
Susan Thomas
Susan.Thomas30@wales.nhs.uk



RGC Casnewydd (Gorllewin)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Gorllewin Casnewydd:

Susan Thomas
Susan.Thomas30@wales.nhs.uk

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Ymgysylltu â'r Gymuned – Ffeiriau Iechyd

Roedd y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth wedi darparu cymorth a chyllid ar gyfer cyfarpar mewn perthynas â 'Ffeiriau Iechyd' yn ymwneud ag Iechyd y Cyhoedd, ffeiriau a gynhaliwyd bedair gwaith yn ystod cyfnod o 12 mis. Cynhaliwyd pob digwyddiad mewn Mosgiau ac mewn lleoliadau cymunedol yng Ngorllewin Casnewydd, a hynny er mwyn ymgysylltu â'r cymunedau lle y cofnodwyd bod llai o bobl yn cael eu brechu a'u sgrinio.

Prif ffocws y digwyddiadau oedd:

- Clefyd fasgwlaidd coronaidd
- Sgrinio a chynghor ar hepatitis
- Cynghor ar iechyd cyffredinol
- Brechiadau'r ffliw a COVID-19
- Brechiadau yn ystod plentynod
- Rhaglenni sgrinio

Gofal Seiliedig ar Le

- Bydd y model gofal seiliedig ar le yn parhau i fod yn gyfrwng trosfwaol ar gyfer llywio a chyflawni blaenoriaethau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yng Nghasnewydd. Bydd y Rhwydwaith yn parhau i weithio mewn partneriaethau sy'n drefniadau cydweithredol rhwng sefydliadau â chyfrifoldeb am drefnu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal a phartïon eraill sydd â rôl o ran gwella iechyd a llesiant. Bydd model Gofal Seiliedig ar Le Casnewydd yn parhau i nodi rolau a fydd yn ategu ac yn cryfhau proses y tîm amlddisgyblaethol.
- Parhau â model y tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod y bobl sydd â'r cyflyrau mwyaf cymhleth ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio ac wynebu digwyddiadau anffafriol, megis cael eu derbyn i'r ysbty, yn byw bywydau diogel, annibynnol a chyflawn. Bydd y dull tîm amlddisgyblaethol hwn yn gofyn am gydlyn gofal, ac am fewnbwn ymrwymedig o du gweithwyr ailalluogi, timau nyrsio arbenigol, fferyllwyr clinigol, tîm iechyd meddwl cymunedol, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, tai, a sefydliadau trydydd sector.

Beth nesaf?

Y Gweithlu

- Cryfhau'r gweithlu presennol i sicrhau parhad busnes. Meithrin ymgysylltiad â chyflogaion trwy eu datblygu a'u cefnogi a thrwy drosglwyddo gwybodaeth trwy gyfrwng datblygiad proffesiynol parhaus. Nodi unrhyw fylchau a mynd ati i recriwtio ar gyfer rolau estynedig er mwyn gwella'r gweithlu presennol.
- Pe byddai cyllid ychwanegol yn dod ar gael i'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, yna byddai hwn yn cael ei fuddsoddi mewn adnoddau staff ychwanegol er mwyn datblygu'r Tîm Gofal Seiliedig ar Le ymhellach.

Cyfleusterau ac Ystadau

- Mae Strategaeth Ystadau Casnewydd wedi cael ei chreu sy'n darparu ôl troed o'r cymdogaethau yn y ddinas. Bydd hyn yn darparu sail o ran nodi'r cydbwysedd cywir rhwng strwythurau sy'n galluogi'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i gynllunio gofal effeithiol ac effeithlon ar gyfer y boblogaeth leol gan hefyd alluogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gael ei ddarparu i ddiwallu anghenion unigolion yng nghyd-destun eu cymuned leol.

Data a Gwybodaeth

- Mae gwaith cydweithredol yn ofynnol wrth i'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig symud ymlaen o ran argaeledd data i wella'r broses o haenu risgiau ac adnabod achosion er mwyn rhoi blaenoriaeth i bobl sydd, er enghraifft, yn dioddef o eiddilwch cymedrol neu ddifrifol. Trwy ddadansoddi a chysylltu setiau data ar ofal wedi'i gynllunio, byddai wedyn yn bosibl nodi carfanau a allai fod wedi cael cymorth yn gynt yn y gymuned trwy gyfrwng cymorth amlbroffesiynol rhagweithiol.

Presgripsiynu Cymdeithasol/Cysylltydd Cymunedol

- Cryfhau gwaith y tîm amlddisgyblaethol trwy gyfrwng rolau gweithwyr cyswllt ychwanegol. Mae rôl Cysylltydd Cymunedol wedi cael ei nodi o ran bod yn rôl gweithiwr cyswllt a gyflogir gan Gyngor Dinas Casnewydd, a bydd yn rhan o'r elfen Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor. Mae'n darparu apwyntiadau wyneb yn wyneb a bydd yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i rymuso cleifion i adnabod eu hanghenion, eu cryfderau a'u hasedau personol eu hunain. Bydd y Cysylltydd Cymunedol hefyd yn gweithredu fel cyfrwng i gysylltu cleifion â'u cymunedau eu hunain i gael cymorth gyda'u hiechyd a'u llesiant personol. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi cael ei greu sy'n amlinellu diben ac amcanion y rôl, ac mae papur wedi cael ei gyflwyno i ofyn am gyllid i ganiatáu Cysylltydd Cymunedol peilot ar gyfer Meddygfa Bellevue a Meddygfa Ringland.

Rhwydwaith Llesiant Integredig

- Gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Llesiant Integredig a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO), a chysoni blaenoriaethau i wella llesiant, gan gefnogi unigolion i newid ymddygiadau nad ydynt yn iach a chynyddu eu hymwrthedd i glefydau.
- Gweithio'n gydweithredol â'r Rhwydwaith Llesiant Integredig mewn perthynas â Threftadaeth ac Iechyd i hybu cydweithrediad mewn cymunedau amrywiol yng Nghasnewydd, a hynny er mwyn gwella dealltwriaeth a mynediad at wasanaethau iechyd a chymorth cymunedol, fel ei gilydd, yn cynnwys sgrinio cymunedol a brechiadau, a meithrin ymwybyddiaeth o gymorth ataliol ar gyfer iechyd a llesiant. Mae diabetes, dementia ac iechyd menywod wedi cael eu nodi'n flaenoriaethau. Yn ogystal â darparu gweithdai gan gyfoedion ar gyfer y materion iechyd hyn, mae ymgysylltiad â'r gymuned hefyd wedi nodi'r angen i ddarparu cymorth ar gyfer cydnerthedd cymunedol trwy wneud y canlynol:
 - Rhoi hyfforddiant i arweinwyr cymunedol ac unigolion â diddordeb ar Sicrhau Bod Pob Cyswllt yn Cyfrif (MECC), Pum Ffordd at Les, Cymorth Cyntaf, Cysylltu 5 a Sgrinio, a sgiliau maeth ar gyfer bywyd, a hynny er mwyn iddynt ddarparu newidiadau o ran ffordd iach o fyw i'w cymunedau.
 - Uwchsgilio gofalcwyr di-dâl – megis cynnig hyfforddiant ar gynnal bywyd sylfaenol, yn arbennig y rheiny sy'n gofalu am blant anabl a chyflyrau cyffredinol eraill
- Bydd y gwaith yn parhau i nodi a datblygu 'hybiau' cymunedol ar gyfer adnoddau llesiant yn y gymuned.
- Sicrhau y gall 'hybiau' cymunedol gysylltu pobl ag adnoddau iechyd a llesiant, gweithgareddau, a phobl eraill i gefnogi eu llesiant eu hunain.

- Cysoni gwaith y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r Rhwydweithiau Llesiant Integredig i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o fodel gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio ar y gymuned trwy asedau cymunedol ac anghenion lleol yn y boblogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol.
- Sicrhau bod gan Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth ddealltwriaeth dda o Rwydweithiau Llesiant Integredig er mwyn defnyddio asedau cymunedol, megis grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu i gynnal neu ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymdeithasol.
- Cydgynhyrchu model 'presgripsiynu cymdeithasol' sy'n cysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau a gwasanaethau yn eu cymuned a all fynd i'r afael â'u hanghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol.

Rhaglenni Atal a Gwasanaethau Ychwanegol

- Sefydlu darpariaeth gwasanaethau atodol/ychwanegol sy'n deg ac o ansawdd uchel ar draws pob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gyda ffocws cychwynnol ar ddyfeisiau atal cenhedlu yn y groth (IUD), mân lawdriniaethau, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.
- Hwyluso dull cydweithredol wrth ddarparu gwasanaeth atal a rheoli diabetes a ffactorau risg ehangach clefyd cardiofasgwlaidd (yn cynnwys gorbwysedd) er mwyn sicrhau y gall y rhaglenni gael eu cyflawni mewn modd systematig ac ar raddfa fawr ledled y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Cyflyrau Cronig

Parhau i fonitro cyfraddau lleol cyflyrau cronig trwy'r data Dadansoddi Anghenion y Boblogaeth. Mae diabetes ymhlith oedolion wedi cynyddu 40% i 212,716 yn 2021-22. Mae gan Gasnewydd y nifer uchaf o achosion o ddiabetes yng Nghymru, sef 8.7%, ac felly pennwyd bod diabetes yn un o flaenoriaethau allweddol yr is-adran. Anelu at leihau nifer yr oedolion sy'n byw â diabetes.

Iechyd Meddwl

Parhau i gefnogi problemau iechyd meddwl y boblogaeth leol a lleihau'r galw am y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn yr ardal hon.

Cydweithredfeydd Proffesiynol

Darparu arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer cydweithio neu weithio ar raddfa fawr i greu mwy o sefydlogrwydd ac i ddarparu gwasanaethau dan gontract mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Boblogaeth

Parhau i ymgysylltu â'r boblogaeth mewn perthynas ag iechyd a llesiant.

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig Torfaen

Pwy ydym ni?

Mae Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen yn cael ei gadeirio ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol.

- Ers i'r dull gael ei drawsnewid o Gynllun Integredig Torfaen i Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen, y ffactor llwyddiant allweddol fu ehangder gwybodaeth y partneriaid dan sylw a harneisio hyn i ysgogi sefyllfa gyffredinol o wella systemau ar gyfer preswylwyr Torfaen. Cyflawnwyd hyn trwy sicrhau bod pob partner yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o bennu'r weledigaeth mewn gweithdai yn ystod cyfarfodydd, a thrwy gael amrywiaeth o raglenni sy'n defnyddio profiad partneriaid – er enghraifft, mae mynd i'r afael â'n mynychwyr aml i Adrannau Achosion Brys wedi denu cyd-weithwyr o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, yr Heddlu, y Trydydd Sector, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Byddai'r bartneriaeth yn elwa o gyllid dirprwyedig i weithredu rhaglenni gwaith yn gyflym gan ei bod yn ymrwymedig i sefydlu dull gofal seiliedig ar leoedd. Gall fod yn heriol weithiau gwneud cais i ffrydiau ariannu sy'n eiriol dros ddull rhanbarthol.
- Mae Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen yn cynnwys partneriaid allweddol sy'n chwarae rhan arwyddocaol yng ngweithrediad llwyddiannus y system iechyd a gofal cymdeithasol yn y fwrdeistref. Ers ei ailsefydlu yn 2023, mae ffocws y Bwrdd Partneriaeth wedi cael ei bwysoli'n bennaf tuag at ochr oedolion y system, ac mae'r partneriaid sy'n bresennol yn adlewyrchu hyn. Gwasanaethir y bartneriaeth gan gyd-weithwyr o'r meysydd Gofal Sylfaenol, Therapiau, Iechyd y Cyhoedd, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Adfywio Cymunedol (sy'n cynnwys Llyfrgelloedd a Chanolfannau Cymunedol), Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Cymdeithasau Tai, yr Heddlu, Cynghrair Gwirfoddoli Torfaen (TVA) a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.
- Yn dilyn llwyddiant yn y system oedolion, mae'r Bwrdd Partneriaeth wrthi'n cyflwyno'r dull ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, ac ym mis Mawrth 2025 bydd yn cynnal gweithdy i gytuno ar feysydd gwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae hwn yn faes blaenoriaeth i'r bartneriaeth am fod gan Dorfaen y boblogaeth uchaf yn Ewrop fesul 10,000 o blant sy'n derbyn gofal. Nod y gweithdy yw dod â chyd-weithwyr sydd eisoes yn gysylltiedig â'r Bwrdd Partneriaeth ynghyd, a denu mewnbyn arbenigol newydd ar gyfer y Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd, Nyrsio mewn Ysgolion, Addysg ac Ieuencid.

Lleolir Torfaen yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae'n ffinio â dinas Casnewydd i'r de, Sir Fynwy i'r dwyrain, a bwrdeistrefi sirol Caerffili a Blaenau Gwent i'r gorllewin a'r gogledd-orllewin. Mae gan Dorfaen arwynebedd o 126 km² a hi yw'r 3edd fwrdeistref leiaf yng Nghymru, gyda phoblogaeth o tua 92,300.

Yn ddaearyddol, mae'r ardal yn rhedeg o Flaenau'r Cymoedd yn y gogledd i goridau'r M4 yn y de, ac mae tri phrif anheddiad i'w cael ar hyd y ffordd – Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwibrân. Torfaen yw'r cwm mwyaf dwyreiniol o gymoedd diwydiannol De Cymru, a chafodd yr aneddiadau yng ngogledd a chanol y fwrdeistref eu sefydlu'n wreiddiol i fanteisio ar yr adnoddau

golosg, glo a haearn anadnewyddadwy a thoreithiog yn yr ardal. Wrth i'r diwydiannau trwm hyn ddirywio yn ystod y 100 mlynedd ddiwethaf, felly hefyd y dirywiodd ffyniant yr ardaloedd. Heddiw, mae gan dref Blaenafon, sy'n Safle Treftadaeth y Byd, boblogaeth o tua 6,000, a hi yw'r dref bellaf i'r gogledd yn y fwrdeistref. Mae Blaenafon yn enwog am amgueddfa lofaol y Pwll Mawr, ac am y gwaith haearn gorau o'r 18fed ganrif, o ran ei gyflwr, yn Ewrop.

Hen dref ddiwydiannol Pont-y-pŵl, gyda'i marchnad draddodiadol dan do ac yn yr awyr agored, yw'r anheddiad nesaf o ran maint yng nghanol y fwrdeistref, ac, ynghyd â'r cymunedau amrywiol o'i chwmpas, mae ganddi boblogaeth o tua 37,100.

Yn ne'r fwrdeistref, mae Cwmbrân yn unigryw o ran mai hi yw'r unig dref newydd yng Nghymru; cafodd ei dynodi yn 1949 ac fe'i cynlluniwyd i fod yn dref nodedig, flaengar a modern a oedd yn cynnig cyfleoedd newydd i'w phreswylwyr. Mae llawer o rannau deheuol y fwrdeistref sirol bellach wedi'u trefoli o amgylch Cwmbrân, ac yma y mae'r boblogaeth fwyaf, tua 48,700, o blith ardaloedd y tri anheddiad. Canolfan Siopa Cwmbrân sy'n denu'r nifer mwyaf o ymwelwyr siopa, gyda 17 miliwn o gwsmeriaid y flwyddyn yn dod yno o ardal ehangach Gwent a choridor yr M4.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae blaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen fel a ganlyn:

- Sicrhau ymgysylltiad llawn y trydydd sector
- Gweithlu integredig ar gyfer y dyfodol
- Gwaith seiliedig ar leoedd
- Ailgynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn
- Sicrhau ystad addas i'r diben
- Gwell craffu ariannol ar draws y system

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Nod Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen yw:

- Deall anghenion y boblogaeth, gan gynnwys y blaenoriaethau allweddol.
- Deall asesiadau proffesiynol a fynegir gan glystyrau/gydweithfeydd proffesiynol a gwasanaethau'r awdurdod lleol ynghylch bylchau, rhwystrau a chyfleoedd mewn perthynas â llwybrau gwasanaethau.
- Datblygu cynllun cyflawni sy'n gyson ac sy'n dwyn ynghyd y blaenoriaethau ar draws y system.
- Darparu arweinyddiaeth systemau sy'n galluogi cydweithrediad rhwng sefydliadau partner ar

draws iechyd a gofal cymdeithasol, a hynny i nodi a diwallu anghenion y boblogaeth leol.

- Ymgymryd â gwaith cynllunio integredig ar sail asesiad manwl o anghenion, ynghyd â chynlluniau gweithredol sy'n pennu uchelgeisiau cyffredin rhwng partneriaid ar gyfer darparu gwasanaethau integredig, datblygiadau i wasanaethau a chyfleoedd i gyflenwi gofal integredig yn y gymuned i breswylwyr Torfaen.
- Cefnogi datblygiad Cynllun Gweithlu Integredig sy'n adlewyrchu cynaliadwyedd lleol gwasanaethau ac uchelgeisiau Torfaen, fel ei gilydd, a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r cynllun hwnnw.
- Yn seiliedig ar angen ac fel y nodir yng Nghynllun Integredig Torfaen, cydgomisiynu cyfres o wasanaethau gan sefydliadau a all ddarparu gwasanaethau arloesol sy'n seiliedig ar ganlyniadau.
- Galluogi i wasanaethau gael eu darparu i wireddu'r amcanion a'r camau gweithredu a amlinellir yng Nghynllun Integredig Torfaen. Bydd hyn yn cynnwys dewis gwybodaeth sy'n seiliedig ar ddata cyfredol i greu'r fframwaith ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, a darparu llinell sylfaen ar gyfer monitro mewn rhaglenni gwaith.
- Creu diwylliant sy'n cymell pob partner yn Nhorfaen, a defnyddio dull arloesol a gwybodaeth i ysgogi gwelliannau parhaus yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig.
- Nodi, monitro a cheisio sicrwydd bod camau gweithredu ar waith i liniaru'r risgiau sydd i weithio mewn partneriaeth, a chyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y cynllun.

Mae'r bartneriaeth wedi bod yn llwyddiannus o ran goruchwyllo datblygiad a gweithrediad y canlynol:

- Ailgynllunio'r gwasanaeth Ailalluogi Integredig – bydd hyn yn sicrhau, adeg cyrchu gofal cymdeithasol gan naill ai'r gymuned neu ysbyty, fod ailalluogi rhyddhau yn cael ei gynnig/dreialu yn hytrach na gwasanaeth hirdymor; bydd hyn yn lleihau dibyniaeth ar ddarpariaeth gwasanaeth hirdymor ac yn creu capasiti yn y farchnad gofal cartref.
- Dull diwygiedig y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ac adolygiad cynhwysfawr o ddull cymunedau mewn perthynas ag ailbroffilio'r 'gymuned' fel y cynnig
- Dull Torfaen o leihau Oedi yn Achos Llwybrau Gofal, a hynny'n unol â thargedau Blaenoriaeth 1 y Pwyllgor Gweithredu Gofal o ran cyfanswm yr achosion o oedi, yr oedi yn achos asesiadau, a nifer y diwrnodau lle bo oedi wedi digwydd.



BPGI Torfaen (Gogledd a De)



BPGI Torfaen (Gogledd a De)

Yn gysylltiedig â hyn, mae cyd-weithwyr ym maes Tai wedi darparu llwybr ar gyfer cymorth i gleifion a allai brofi oedi oherwydd problem tai

- Sefydlu gweithgor i adolygu defnyddwyr dwyster uchel a phennu trefniadau amgen i ymgyflwyno yn yr Adran Achosion Brys
- Prosiect trafnidiaeth ar gyfer gogledd y fwrdeistref i gefnogi preswylwyr i gyrchu gwasanaethau iechyd
- Prosiect tai gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, sy'n cysylltu data cod post am gleifion a chanddynt gyflwr anadlol â chymdeithasau tai, a hynny i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chyflwr eiddo.

Mae'r cyflawniadau allweddol fel a ganlyn:

Ymyriad ac Atal Cynnar trwy Ofal Seiliedig ar Lleoedd

- Gwasanaeth Ailalluogi Cymunedol Integredig
- Canolfan Adnoddau Blaenafon
- Canolfan Adnoddau i Deuluoedd Stryd Wesley.

Gwneud y Mwyaf o'n Hasedau

- Tŷ Gwent, Canol Tref Cwmbrân
- Ailgynllunio'r Ysbyty Sirol.

Cynaliadwyedd ein Gwasanaethau Cymunedol

- Y gwasanaeth plant – o ran darparu gofal yn lleol, ac uchelgais Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dileu elw ym maes gofal
- Ailgynllunio Gwasanaethau Oedolion Hŷn – yn nhermau dull graddedig sy'n dechrau gyda Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, ac yn mynd ymlaen i atal ac ymyriad cynnar a gofal arbenigol hirdymor
- Llwybrau Iechyd Meddwl – model gofal fesul cam, a hynny o lesiant meddwl i wasanaeth iechyd meddwl arbenigol.

Rhwydweithiau Llesiant Integredig

- Meithrin cydnerthedd a gallu yn y gymuned
- Mapio a rhwydweithio asedau cymunedol
- Creu rhwydwaith o "ganolfannau" cymdogaeth lle gall pobl gael cymorth a chymryd rhan mewn gweithgareddau a grwpiau
- Cynnal y cyfeiriadur, Cyswllt Torfaen, sy'n rhestru gwasanaethau llesiant.

Beth nesaf?

Y blaenoriaethau wrth symud ymlaen yw:

- Adolygu a recriwtio i rôl Arweinydd y Rhwydwaith Llesiant Integredig i ddatblygu'r rhaglen ymhellach.
- Ehangu cymorth ein Tîm Adnoddau Cymunedol yn y gymuned, gan weithio ar y cyd mewn lleoliadau cymunedol.
- Sicrhau bod gan wasanaethau yr hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigolion.
- Gwella'r mynediad at arbenigedd.
- Darparu profiad cadarnhaol i gleifion a gofalwyr.
- Sicrhau amgylchedd gwaith cefnogol a chyfleoedd datblygu gyrfa i'n staff, gan greu diwylliant ysgogol.



RGC Torfaen (Gogledd a De)

Pwy ydym ni?

Eryl yw Arweinydd y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ar gyfer Torfaen, a'i maes cyfrifoldeb yw Teuluoedd a Therapiau, ac Iechyd Menywod. Yn y blynyddoedd ers iddi fod yn Arweinydd y Rhwydwaith, mae Eryl wedi arwain proses cysoni cartrefi gofal sydd wedi trawsnewid gofal preswylwyr cartrefi gofal a chynyddu'r cydweithrediad rhwng clystyrau, a hynny trwy greu Rhwydwaith Fferylliaeth a Fferyllwyr Practis Torfaen. Mae gan Eryl gefndir ym maes Fferylliaeth, a hi yw'r Cynghorydd Presgripsiynu Arweiniol ar gyfer tîm Rheoli Meddyginiaethau BIPAB. Mae'n aelod o Grŵp Cynghori ar Bresgripsiynu Cymru Gyfan a'r Grŵp Cyflawni, Fferylliaeth yn Cyflawni Cymru Iachach. Mae Tîm Ardal Torfaen yn cynnwys: **Pennaeth y Gwasanaeth, Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaeth, Rheolwr y Rhwydwaith a'r Gymyned, Rheolwr Gwella Gwasanaethau, Swyddog Cymorth Busnes**

Mae gan Dorfaen boblogaeth o 98,300 o bobl. Mae dros 30% o'r preswylwyr hyn yn byw mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd, tra bo 20% arall yn byw yn yr ail ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae lefelau uchel o amddifadedd yn Nhorfaen yn cyflwyno heriau sylweddol. Yn aml, mae gan yr ardaloedd hyn iechyd gwaeth, lefelau addysg is, a llai o adnoddau cymunedol a chyhoeddus. Y prif broblemau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd yn Nhorfaen yw diweithdra, tai o ansawdd gwael, ac incwm isel. Mae mynd i'r afael â'r problemau hyn yn allweddol i wella iechyd a llesiant ein cymuned.

Mae yna 11 o bractisau meddygon teulu yn gweithredu yn ardal Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Torfaen

- Practis Meddygol Blaenafon
- Meddygfa Heol-y-Dderwen
- Stryd Capel Newydd
- Meddygfa Pentref Cwmbrân/ Meddygfa Llanyrafon
- Meddygfa Rhodfa Clark
- Canolfan Iechyd Nant Dowlais
- Canolfan Iechyd Panteg
- Trosnant Lodge
- Practis Grŵp Abersychan
- Canolfan Feddygol Pont-y-pŵl

Services within the cluster (GP/other contractors/ Gwasanaethau Cymunedol)

- 11 Practis Meddygon Teulu
- 13 o bractisau deintyddol
- 11 o optometryddion
- 21 o fferyllfeydd cymunedol

Mae'r galw am ofal iechyd yn parhau i gynyddu mewn cyfrannedd â thwrf y boblogaeth. Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio, gyda chleifion yn byw am amser hirach ag anghenion mwy cymhleth, gan gynyddu ymhellach yr heriau a wynebir gan y GIG a'i bartneriaid. Nod Torfaen yw darparu system ofal seiliedig ar le sy'n fwy integredig ac sy'n cynnwys gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau llesiant, sy'n cynnig gofal cydlynol yn nes at y cartref, gyda chydweithrediad o ran sgiliau proffesiynol ar draws timau amlddisgyblaethol.

Mae Torfaen wedi cynyddu'r arfer o gydweithio ledled y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gyda'r nod o gryfhau cydnerthedd cymunedol, ymateb i anghenion y boblogaeth, a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf trwy ei dair prif ffrwd waith:

1. Atal, Llesiant, a Hunanofal
2. Mynediad a Chynaliadwyedd
3. Gofal Sylfaenol a Chymunedol Integredig

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Tair prif flaenoriaeth Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth Gogledd a De Torfaen yn 2024-25

1. Cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y Rhwydwaith.

- CATCH yn darparu cymorth ar gyfer practisau meddygon teulu.
- Ystadau Tŷ Gwent a Trefddyn yn cefnogi gwasanaethau ychwanegol ac yn lleihau'r galw mewn practisau.
- Fferyllfydd y Clwstwr yn gwella diogelwch meddyginiaethau.
- Ymgysylltu â'r tîm Rheoli Meddyginiaethau i fynd i'r afael â'r broses o ragnodi allanolion a gwella'r broses honno.
- Ymarferwyr Iechyd Seicolegol yn darparu mynediad at gyngor a chymorth mewn perthynas ag iechyd meddwl mewn practisau meddygon teulu.
- Cyflwyno Model Luton a hyrwyddo'r broses o estyn cyfnodau presgripsiwn.
- Parhau i nodi gwasanaethau, technoleg a datblygiadau arloesol i helpu i gynorthwyo mynediad a chynaliadwyedd ar gyfer Ymarfer Cyffredinol a gwasanaethau cymunedol megis AccuRx a'r llwyfan Dewis Fferyllfa.
- Parhau i wella'r broses o ddarparu Gwasanaethau Ychwanegol ac i sicrhau darpariaeth deg.

2. Datblygu Clwstwr Carlam – Cydweithredfeydd a Gwaith Amlddisgyblaethol

- Cipio gwybodaeth a phrofiad y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, ac, wedi iddo gael ei benodi, tîm y Rhwydwaith Llesiant Integredig i fapio'r gwasanaethau a ddarperir, nodi bylchau,

a datblygu datrysiadau a rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan ddefnyddio asedau'r gymuned yn unol ag anghenion y boblogaeth.

- Cydweithredfeydd Proffesiynol yn llywio'r penderfyniadau a wneir gan y Rhwydwaith.
- Llywio Gofal trwy gyfeirio at wasanaethau lleol i sicrhau'r gofal cywir ar yr adeg gywir ar lefel practisau, gan raeadru hyn trwy'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a'r cydwethredfeydd proffesiynol.
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd; Allgymorth ar gyfer clefyd cardiofasgwlaidd – prosiect Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen.
- Treialu system archebu clinigau Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd Cymunedol mewn practisau meddygon teulu.
- Trefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer cyllido Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, CLGau, a gwerthuso gwasanaethau.

3. Adeiladau Cymunedau Cydnerth

- Dadansoddi'r angen lleol i nodi blaenoriaethau a llunio datrysiadau effeithiol.
- Hybu atgyfeiriadau a chynyddu mynediad at rolau arbenigol yn y gymuned, megis gwasanaethau Gofal Lliniarol, a Nyrsys Diabetig ac Anadlol Arbenigol.
- Cysylltwyr Cymunedol yn cysylltu unigolion â grwpiau, gweithgareddau a sefydliadau lleol i gefnogi llesiant corfforol a meddyliol.
- Amlygu gwasanaethau ataliol i gadw dinasyddion yn iach, gan gynnwys imiwneiddio rhag y fflwi, imiwneiddio yn ystod plentynod, gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu, gwasanaethau rheoli pwysau, a chynlluniau atgyfeirio unigolion i wneud ymarfer corff.

ASTUDIAETH ACHOS

Mae ein Menter Cartrefi Iach yn golygu gweithio gyda phractisau meddygon teulu yn yr ardal i nodi cleifion a allai elwa o ymyriad a ddarperir gan y gwasanaeth Gofal a Thrwsio. Rydym yn cysylltu â chleifion ac yn eu gwahodd i estyn allan i'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio, a fydd yn cynnal asesiad wyneb yn wyneb i nodi sut y gallent gael budd o'r gwasanaeth. Mae'r cynllun yn cynnig addasiadau i'r cartref a ariennir yn llawn i gleifion oedrannus y mae arnynt angen cymorth i leihau'r risg o gwmpo a'u helpu i gadw'n ddiogel, yn gynnwys, yn hapus ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Ers cychwyn y prosiect hwn, mae bron 900 o bobl wedi elwa o fân addasiadau i'w cartrefi ac o dros £230,000 o fudd-daliadau lles a nodwyd ac a hawliwyd yn sgil hynny.



RGC Torfaen
(Gogledd a De)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Torfaen
Eryl Smeethe
Eryl.Smeethe@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RGC Torfaen (Gogledd a De)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Torfaen

Eryl Smeethe
Eryl.Smeethe@wales.nhs.uk

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae aelodau Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth Torfaen wedi cael y gydnabyddiaeth a'r gwobrau canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- Enillodd Dr Esther Okafor o Ganolfan Iechyd Panteg wobwr Meddyg Teulu y Flwyddyn yng Ngwobrau Iechyd a Gofal 2024 y South Wales Argus.
- Enillodd Fferyllfa Layanson Fferyllfa y Flwyddyn yng Ngwobrau Iechyd a Gofal 2024 y South Wales Argus.
- Cafodd tîm nyrsys ardal Gogledd Torfaen ym Mlaenafon ei enwebu gan glaf neu berthynas ar gyfer gwobrau cydnabyddiaeth y Bwrdd Iechyd.
- Cafodd staff Canolfan Iechyd Panteg Dystysgrif Cydnabyddiaeth Gwobr Dewis y Cleifion yng Ngwobrau Cydnabod Staff 2024.

Cyrhaeddodd tîm Canolfan Iechyd Trefddyn y rownd derfynol ar gyfer y wobwr Iechyd a Llesiant yng Ngwobrau Iechyd a Gofal 2024 y South Wales Argus.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae tîm CATCH Torfaen yn cefnogi practisau meddygon teulu ledled Torfaen trwy ymweld â chartrefi a chynnal asesiadau geriatrig cynhwysfawr ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal.

Mae buddion asesiad clinigol gan y Nyrs CATCH yn cynnwys:

- Mwy o amser i ddarparu asesiad holistaidd ar gyfer pob claf, ynghyd â diagnosteg
- Adnabod problemau clinigol newydd neu broblemau â'r feddyginiaeth
- Amser i drafod dymuniadau ar gyfer achosion yn y dyfodol â chleifion a'u teuluoedd
- Amser i gefnogi a chynghori staff cartrefi gofal mewn perthynas ag arfer gorau.

Gydol y flwyddyn, mae'r tîm CATCH wedi cael ei gynnwys fwyfwy wrth ddarparu gwasanaethau yn yr ardal, gan gryfhau perthnasoedd â chleifion a sefydliadau partner, fel ei gilydd.

- Gwasanaeth y rhoddir gwerth uchel arno yn Nhorfaen
- Adborth cadarnhaol gan gleifion, practisau, cartrefi gofal, a nyrsys ardal
- Rolau parhaol wedi cael eu sicrhau
- Staff yn cwblhau addysg bellach, sy'n eu galluogi i gynnal asesiadau ac ymyriadau clinigol mwy datblygedig, gan ryddhau amser meddygon teulu
- Cefnogi cartrefi gofal â Gwasanaeth Ychwanegol wedi'i Gyfeirio at Gartrefi Gofal ledled Torfaen.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?

Mae yna dair her barhaus

1. Cyllideb

- Cyllidebau cyfyngedig y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn rhwystro prosiectau mawr
- Caiff cyllideb y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ei bennu'n rheolaidd
- Prosiectau'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth sydd wedi cael gwerthusiad da heb bontio i gael cyllid craidd, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i fuddsoddi mewn mentrau newydd
- Pwysau ariannol ar gcontractwyr annibynnol o ganlyniad i bwysau chwyddiant a chodiadau cyflog.

2. Cynaliadwyedd

- Problemau o ran cadw a recriwtio'r gweithlu ledled y gwasanaeth gofal sylfaenol a thimau cymunedol
- Gweithlu sy'n heneiddio ac ymddeoliadau yn bygwth cynaliadwyedd y modelau presennol
- Problemau o ran recriwtio ar gyfer rolau penodol, megis meddygon teulu partner, nyrsys practis, ac uwch-ymarferwyr nyrsio
- Mynediad at ddeintyddiaeth, a phractis y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol yn cau
- Lefelau uchel rheolaidd o uwchgyfeirio ymhlith practisau'r Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol
- Ymwybyddiaeth y cleifion o'r gwasanaethau priodol.

3. Datblygu Clwstwr Carlam – Cydweithredfeydd Proffesiynol

- Mae symud y tu hwnt i'r cam pontio at ddatblygiad llwyr, a deall rolau a chyfrifoldebau yn heriol ar adegau
- Camau cynnar aeddfedrwydd
- Cynrychiolaeth gyfyngedig lle nad yw'r ymgysylltu dan gcontract
- Staff uwch yw aelodau'r cydweithredfeydd proffesiynol ar y cyfan, ac mae angen ymgysylltiad mwy eang
- Diffyg arweinydd optometreg yn Nhorfaen
- Lleoliadau rheolaidd i sicrhau cyfarfodydd cydweithredol.

Cynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

Ein meysydd blaenoriaeth ni, y Bwrdd Iechyd, ar gyfer yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol dros gyfnod 2025-26 fydd symud ymlaen â'r meysydd canlynol a'u cyflawni:

- Cyflyrau Hirdymor – Rheoli ac Atal
- Mynediad a Chynaliadwyedd
- Ailgynllunio'r Gwasanaethau Pobl Hŷn
- Datblygu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a Phartneriaethau.

Beth nesaf?

Blaenoriaethau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yw:

- Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Cefnogi cynaliadwyedd contractwyr annibynnol
- Galluog pobl i gadw'n iach a byw bywydau iachach am amser hirach
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
Sefydlu'r arfer o weithio mewn tîm amlddisgyblaethol ar gyfer pobl sydd â'r cyflyrau mwyaf cymhleth ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio a wynebu digwyddiadau anffafriol, megis cael eu derbyn i'r ysbyty.